

CBAC TGAU mewn AMGYLCHEDD ADEILEDIG

CYMERADWYWYD GAN CYMWYSTERAU CYMRU

MANYLEB

I'w addysgu o 2021
I'w ddyfarnu o 2023

Fersiwn 2 Hydref 2021

CRYNODEB O NEWIDIADAU

Fersiwn	Disgrifiad	Rhif y dudalen
2	Ychwanegwyd gwerthoedd GMU pob uned at adran 4.2	56



CBAC TGAU mewn AMGYLCHEDD ADEILEDIG

I'w haddysgu o 2021 I'w dyfarnu o 2023

Mae'r fanyleb hon yn bodloni gofynion y dogfennau rheoleiddio canlynol a gyhoeddwyd gan Cymwysterau Cymru:

- Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer Cymwysterau TGAU sy'n nodi'r gofynion ar gyfer yr holl fanylebau TGAU newydd neu ddiwygiedig a ddatblygwyd i'w dysgu yng Nghymru o fis Medi 2017.
- Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TGAU Amgylchedd Adeiledig sy'n nodi'r gofynion ar gyfer yr holl gymwysterau yn y pwnc hwn i'w haddysgu yng Nghymru o fis Medi 2021.

	Tudalen
Crynodeb o'r trefniadau asesu	2
1. Cyflwyniad	4
1.1 Nodau ac amcanion	4
1.2 Dysgu blaenorol a dilyniant	5
1.3 Cydraddoldeb a mynediad teg	5
1.4 Bagloriaeth Cymru	6
1.5 Persbectif Cymreig	6
2. Cynnwys y pwnc	7
2.1 Uned 1	7
2.2 Uned 2	22
2.3 Uned 3	41
3. Asesu	50
3.1 Amcanion asesu a phwysoli	50
3.2 Trefniadau ar gyfer asesiadau di-arholiad	51
4. Gwybodaeth dechnegol	55
4.1 Cofrestru	55
4.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl	56
Atodiad A	57
Atodiad B	77

TGAU AMGYLCHEDD ADEILEDIG (Cymru)

CRYNODEB O'R ASESU

Uned 1: Cyflwyniad i'r amgylchedd adeiledig

Arholiad ar y sgrin: 1 awr 30 munud

35% o'r cymhwyster

70 marc: 140 GMU

Asesiad (i'w sefyll ar sgrin) sy'n cynnwys amrywiaeth o fathau o gwestiynau er mwyn asesu cynnwys y fanyleb sy'n ymwneud â syniadau a chysyniadau yn yr amgylchedd adeiledig a thystiolaeth sy'n ymwneud â'r amgylchedd adeiledig.

Mae pob cwestiwn yn orfodol.

Uned 2: Creu'r amgylchedd adeiledig

Asesiad di-arholiad: tua 25 awr

40% o'r cymhwyster

80 marc: 160 GMU

Mae gan ddysgwyr ddewis o ddau lwybr o fewn Uned 2 – *dylunio'r amgylchedd adeiledig* neu *adeiladu'r amgylchedd adeiledig* – ac mae'n rhaid iddynt ddewis un ohonynt.

Mae'r dasg ym mhob llwybr yn asesu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau'r dysgwr o ran nodi, dehongli a chyfrifo gwybodaeth; ysgrifennu meini prawf llwyddiant; cyflawni amrywiaeth o dechnegau sy'n briodol i'r llwybr; gwerthuso tasgau.

Uned 3: Archwilio'r amgylchedd adeiledig

Asesiad di-arholiad: tua 15 awr

25% o'r cymhwyster

50 marc: 100 GMU

Mae'r astudiaeth achos hon yn asesu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth y dysgwr mewn perthynas â'r camau yng nghylchred oes yr adeilad; y camau a'r prosesau sy'n gysylltiedig â dylunio, adeiladu, prisio a defnyddio ei amgylchedd adeiledig.

Mae'r cymhwyster unedol hwn yn un di-haen. Bydd ar gael yn ystod cyfres yr haf bob blwyddyn. Caiff Uned 1 ei hasesu am y tro cyntaf yn 2022; caiff Uned 2 ac Uned 3 eu hasesu am y tro cyntaf yn 2023. Bydd y cymhwyster yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn haf 2023.

Mae'r tabl isod yn dangos y ddau lwybr tuag at gymhwyster TGAU Amgylchedd Adeiledig.

Uned 1 o 2022	Uned 2 Llwybr A ¹ o 2023	Uned 2 Llwybr B ² o 2023	Uned 3 o 2023
✓	✓	-	✓
✓	-	✓	✓

Rhif Cymeradwyo'r Cymhwyster: C00/3965/5

¹ Dylunio'r amgylchedd adeiledig

² Adeiladu'r amgylchedd adeiledig

TGAU AMGYLCHEDD ADEILEDIG

1 RHAGARWEINIAD

1.1 Nodau ac amcanion

Mae cymhwyster TGAU CBAC mewn Amgylchedd Adeiledig yn cyflwyno dysgwyr i'r amgylchedd adeiledig ac yn datblygu eu dealltwriaeth ohono, gan gynnwys y crefftau a'r rolau sy'n gysylltiedig â'r maes, yr offer, technolegau a defnyddiau a ddefnyddir wrth ei adeiladu a'i gynnal a'i gadw, a'r prosesau sy'n rhan o'r gwaith o'i ddylunio.

Mae'r cymhwyster yn galluogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau ymarferol sydd ynghlwm wrth y camau gwahanol yng nghylchred oes adeilad ac yn eu hannog i ymchwilio i'w hamgylchedd adeiledig eu hunain a deall yr effaith y mae'n ei chael ar yr economi, cymdeithas, diwylliant a'r amgylchedd naturiol. Gall y cymhwyster fod o ddiddordeb i ddysgwyr sydd am ddechrau ar eu taith tuag at yrfa yn y sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig, boed hynny mewn rôl sy'n seiliedig ar grefft, rôl broffesiynol neu rôl reoli, neu ddysgwyr sydd am ehangu eu dealltwriaeth o'r amgylchedd adeiledig yn fwy cyffredinol.

Bydd y cymhwyster yn cynnig cyfleoedd i ganolfannau sydd â chyfleusterau, adnoddau a sgiliau gwahanol ymhlith eu staff, ei gyflwyno. Bwriedir iddo hefyd apelio at amrywiaeth eang o ddysgwyr sydd â diddordebau a nodweddion gwahanol. At ei gilydd, bydd yn cynnig dewis o ran y ffordd y bydd dysgwyr yn datblygu eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth yn y maes pwnc. Mae'n annog sybsidiaredd mewn canolfannau ac yn galluogi dysgwyr i archwilio eu cymunedau eu hunain, ac mae'n hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth â chyflogwyr.

Bydd y cymhwyster TGAU CBAC hwn mewn Amgylchedd Adeiledig yn galluogi dysgwyr i ddatblygu:

- gwybodaeth am ddamcaniaethau, syniadau a chysyniadau sy'n ymwneud â'r amgylchedd adeiledig a dealltwriaeth ohonynt
- gwybodaeth am y camau gwahanol yng nghylchred oes yr amgylchedd adeiledig a dealltwriaeth ohonynt
- gwybodaeth am y ffordd mae crefftau a gwasanaethau gwahanol yn cysylltu â'i gilydd yn yr amgylchedd adeiledig, a dealltwriaeth o hyn
- gwerthfawrogiad o'r amgylchedd adeiledig, gan gynnwys y ffordd mae'n cael ei ddylunio, ei greu, ei ddefnyddio a'i gynnal a'i gadw, a'i rôl yn eu bywydau pob dydd
- sgiliau ymholi drwy archwilio'r amgylchedd adeiledig yn y gymuned a'r byd maent yn byw ynddynt
- sgiliau wrth gynllunio projectau sy'n ymwneud â'r amgylchedd adeiledig, gan ddefnyddio'r offer priodol i wneud hynny
- sgiliau ymarferol wrth ddylunio neu adeiladu elfennau o'r amgylchedd adeiledig
- sgiliau wrth ddefnyddio tystiolaeth i werthuso defnydd, perfformiad ac effaith yr amgylchedd adeiledig, a hynny o ran eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill
- gwybodaeth am yr offer, y defnyddiau a'r prosesau a ddefnyddir wrth ddylunio, adeiladu, prisio a defnyddio'r amgylchedd adeiledig, gan gynnwys y ffordd y maent yn newid dros amser.

1.2 Dysgu blaenorol a dilyniant

Nid oes gofynion dysgu blaenorol ar gyfer y fanyleb hon. Yr ysgol/coleg sydd i benderfynu ar unrhyw ofynion sy'n cael eu pennu o ran cael mynediad at gwrs sy'n seiliedig ar y fanyleb hon.

Mae'r fanyleb hon yn darparu sylfaen addas ar gyfer astudio Amgylchedd Adeiledig naill ai ar lefel UG neu ar lefel Safon Uwch.

Mae'r fanyleb hon yn darparu cwrs astudio cydlynol, boddhaus a gwerthfawr i ddysgwyr nad ydynt yn mynd ymlaen i astudio'r pwnc hwn ymhellach. Yn ogystal, bydd dysgwyr yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch amrywiaeth eang o lwybrau gyrfa.

1.3 Cydraddoldeb a mynediad teg

Gellir astudio'r fanyleb hon gan unrhyw ddysgwr, beth bynnag fo'i ryw, cefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol. Lluniwyd y fanyleb i osgoi, lle bo'n bosibl, nodweddion a allai, heb gyfiawnhad, ei gwneud yn fwy anodd i ddysgwr lwyddo oherwydd bod ganddynt nodwedd benodol wedi ei hamddiffyn.

Y nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol, priodas a phartneriaeth sifil.

Mae'r fanyleb hon wedi'i thrafod â grwpiau sy'n cynrychioli buddiannau amrywiaeth eang o ddysgwyr, ac adolygir y fanyleb yn gyson.

Gwneir addasiadau rhesymol ar gyfer dysgwyr penodol fel bod yr asesiadau o fewn eu cyrraedd (e.e. caniateir i ymgeiswyr ddefnyddio Dehonglydd Iaith Arwyddion, gan ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain). Mae gwybodaeth am addasiadau rhesymol i'w chael yn y ddogfen ganlynol gan y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC): *Access Arrangements and Reasonable Adjustments: General and Vocational Qualifications. (Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol: Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol* – ar gael yn Gymraeg ar wefan CBAC).

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y Cyd-gyngor Cymwysterau (www.icq.org.uk). Gan fod darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer addasiadau rhesymol, prin iawn fydd nifer y dysgwyr fydd wedi'u hatal yn llwyr rhag unrhyw ran o'r asesiad.

1.4 Bagloriaeth Cymru

Dylai dysgwyr, wrth ddilyn y fanyleb hon, gael cyfleoedd, lle bo'n briodol, i ddatblygu'r sgiliau sy'n cael eu hasesu drwy'r Dystysgrif Her Sgiliau sy'n rhan o Fagloriaeth Cymru:

- Llythrennedd
- Rhifedd
- Llythrennedd Digidol
- Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau
- Cynllunio a Threfnu
- Creadigrwydd ac Arloesi
- Effeithiolrwydd Personol.

1.5 Persbectif Cymreig

Wrth ddilyn y fanyleb hon, rhaid i ddysgwyr ystyried persbectif Cymreig os ceir cyfle naturiol i wneud hynny fel rhan o'r deunydd pwnc ac os byddai ei gynnwys yn cyfoethogi dealltwriaeth dysgwyr o'r byd o'u hamgylch fel dinasyddion Cymru yn ogystal â'r DU, Ewrop a'r byd.

Mae'r amgylchedd adeiledig yng Nghymru yn cynnig amrywiaeth eang o gyd-destunau ar gyfer cyflwyno cynnwys y pwnc yn y tair uned. Yn ogystal, mae'n bosibl y bydd tasgau asesu di-arholiad Uned 2 yn Llwybr A a Llwybr B yn seiliedig ar gyd-destunau yng Nghymru. Mae'n rhaid i astudiaeth achos asesiad di-arholiad Uned 3 fod yn seiliedig ar amgylchedd adeiledig lleol dysgwyr yng Nghymru, oni bai bod rhesymau cymhellol dros seilio'r gwaith hwn ar gyd-destun gwahanol.

2 CYNNWYS Y PWNC

Llunnir cynnwys y pwnc a gofynion yr asesiad i sicrhau bod dysgwyr yn datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau priodol sy'n eang ym maes yr amgylchedd adeiledig.

Cyflwynir cynnwys y pwnc mewn tair uned ac mae pob un wedi'i hisrannu yn feysydd testun clir a phenodol. Ym mhob maes testun mae'r wybodaeth, dealltwriaeth a'r sgiliau yn cael eu nodi mewn trosolwg cychwynnol ac yna mewn dwy golofn. Mae'r golofn ar y chwith yn nodi'r cynnwys sydd i'w astudio. Mae'r golofn ar y dde yn darparu ymhelaethiad o'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y dylai dysgwyr eu datblygu yn y maes hwn. Gyda'i gilydd, mae'r ddwy golofn yn rhoi cynnwys llawn y fanyleb. Ni awgrymir unrhyw hierarchaeth gan drefn cyflwyno'r cynnwys, ac nid yw'r drefn yn awgrymu trefn addysgu ragnodedig.

Mae'r ymhelaethiad a ddarperir yn y golofn ar y dde yn cynnwys yr holl gynnwys sy'n cael ei asesu ar gyfer yr adran berthnasol, oni bai ei fod yn nodi 'e.e.', '*gan gynnwys*' neu '*megis*'. Yn yr achosion hyn, bydd yr ymhelaethiad yn rhestru cynnwys perthnasol y dylid ei drafod ymhellach mewn ffordd briodol, gan ystyried anghenion a diddordebau dysgwyr.

2.1 Uned 1

Cyflwyniad i'r amgylchedd adeiledig

Arholiad ar y sgrin: 1 awr 30 munud
35% o'r cymhwyster
70 marc

Rhaid cynnal yr arholiad yn unol â'r ddogfen *Instructions for Conducting Examinations* (Cyfarwyddiadau ar Gynnal Arholiadau – yn Gymraeg ar wefan CBAC), sydd ar gael yn www.jcg.org.uk.

Trosolwg o'r uned

Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth mewn perthynas â'r canlynol:

- nodi a disgrifio syniadau a chysyniadau sy'n ymwneud â'r amgylchedd adeiledig
- esbonio cysyniadau sy'n ymwneud â'r amgylchedd adeiledig
- gwerthuso tystiolaeth, syniadau a chysyniadau sy'n ymwneud â'r amgylchedd adeiledig
- cymharu a chyferbynnu syniadau, cysyniadau a thystiolaeth sy'n ymwneud â'r amgylchedd adeiledig.

Meysydd cynnwys

Dylai dysgwyr gael y cyfle i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r wyth maes cynnwys a nodir ar dudalennau 8 i 21.

2.1.1	Y sector
2.1.2	Cylchred oes yr amgylchedd adeiledig
2.1.3	Mathau o adeiladau ac adeileddau
2.1.4	Offer, technolegau a defnyddiau
2.1.5	Adeileddau a ffurfiau adeiladau
2.1.6	Dulliau adeiladu cynaliadwy
2.1.7	Crefftau, cyflogaeth a gyrfaeodd
2.1.8	Iechyd a diogelwch

2.1.1 Y sector

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r meysydd canlynol yn y sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig:

- adeiladau ac adeileddau
- isadeiledd a chynhyrchion peirianeg sifil
- peirianeg gwasanaethau adeiladu.

Cynnwys	Ymhelaethiad
(a) Adeiladau ac adeileddau	Dylai dysgwyr wybod: • y prif fathau o adeiladau ac adeileddau sy'n cael eu cynnwys yn y sector: adeiladau preswyl a dibreswyl, pontydd a ffyrdd • cydrannau nodweddiadol mewn adeiladau ac adeileddau, gan gynnwys waliau, lloriau ac agoriadau.
(b) Isadeiledd a chynhyrchion peirianeg sifil	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r cyfleusterau a'r systemau canlynol: • ffyrdd • rheilffyrdd • pontydd • twneli • cyflenwad dŵr a systemau carthffosiaeth • gridiau trydanol • telegyfathrebu.
(c) Peirianeg gwasanaethau adeiladu	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o swyddogaeth y gwasanaethau canlynol mewn adeiladau, er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu mewn modd diogel, cyfforddus ac ecogyfeillgar: • gwasanaethau mecanyddol, h.y. grisiau symudol a lifftiau, systemau gwresogi, awyru, aerdymheru • gwasanaethau trydanol, h.y. cyflenwad egni, goleuadau a systemau foltedd isel, llinellau cyfathrebu, ffonau a rhwydweithiau TG, systemau canfod tân a diogelwch tân, systemau diogelwch a larymau • gwasanaethau sy'n cefnogi iechyd y cyhoedd, h.y. gwaith plymio ar gyfer cyflenwad dŵr, a dŵr poeth domestig, draenio dŵr gwastraff (carthion) a draenio dŵr storm.

2.1.2 Cylchred oes yr amgylchedd adeiledig

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o gylchred oes yr amgylchedd adeiledig, a'r canlynol yn benodol:

- echdynnu defnydd crai
- gweithgynhyrchu
- adeiladu
- gweithredu a chynnal a chadw
- dymchwel
- gwaredu, aildddefnyddio neu ailgylchu.

Cynnwys	Ymhelaethiad
(a) Echdynnu defnydd crai	Dylai dysgwyr wybod bod y diwydiannau canlynol yn echdynnu defnyddiau crai: • olew a nwy • coedwigaeth • chwarela • mwyngloddio.
(b) Gweithgynhyrchu	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r dulliau canlynol o drawsffurfio defnyddiau crai yn nwyddau gorffenedig: • pren: caiff boncyffion wedi'u cwmpo eu torri'n 'estyll' ac yna eu sychu er mwyn cael gwared ag unrhyw ddŵr • cynhyrchion pren wedi'u saernio: wedi'u dylunio i oresgyn cyfyngiadau ar faint darn o bren wedi'i lifio, h.y. ceibrau cypledig, darnau adeileddol a byrddau wedi'u gweithgynhyrchu, er enghraifft pren haenog a phren fflawiau cyfeiriedig (OSB) • dur: • dur adeileddol – wedi'i wneud yn ddarnau colofnau a thrawstiau safonol • dur gwrthstaen – wedi'i wneud yn osodiadau a dulliau cau • darnau dur meddal ysgafn – capanau drysau, trawslathau a rheiliau • lleni proffil – cladin ar waliau a thoeon. • copr: wedi'i weithgynhyrchu i greu cynhyrchion gwasanaethau adeiladu fel ceblau trydanol a phibellau dŵr/nwy • plastig: wedi'i weithgynhyrchu i greu cynhyrchion gwasanaethau adeiladu fel pibellau dŵr • clai: mae mwynau clai naturiol yn cael eu malu, eu siapio, eu sychu ac yna eu tanio mewn ffyrnau i gynhyrchu brics • sment: mae defnyddiau crai fel calchfaen yn cael eu malu, eu cymysgu a'u gwresogi mewn odyd i wneud sment • morter: mae tywod, sment a dŵr yn cael eu cymysgu i wneud past sy'n cael ei ddefnyddio i osod blociau adeiladu yn sownd yn ei gilydd ac i lenwi'r tyllau rhyngddynt. • concrit: • mae sment, dŵr ac agreg (graeen, tywod neu gerrig) yn cael eu cymysgu â'i gilydd i wneud concrit • wedi'i gyfuno â bariau neu rwyllau dur i wneud capanau drysau concrit cyfnerth a chynhyrchion wedi'u dirwasgu'n barod fel trawstiau lloriau.

Cynnwys	Ymhelaethiad
(c) Adeiladu	Dylai dysgwyr ddeall y ffurfiau canlynol o weithgareddau adeiladu: - adeiladau ac adeileddau newydd a chydodod elfennau wedi'u rhagffurfio ar y safle. - newid, trawsnewid ac adnewyddu adeiladau ac adeileddau presennol. - gwaith peirianeg sifil fel ffyrdd a phontydd. - gosod systemau mecanyddol, trydanol, nwy a gwasanaethau cyfathrebu.
(ch) Gweithredu a chynnal a chadw	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r canlynol: - gall gweithredu gynnwys: - rheoli a monitro systemau gwresogi, oeri a goleuo - darparu gwasanaethau diogelwch, glanhau a gwasanaethau ategol eraill, gan gynnwys gweithdrefnau profi a gwacáu'r adeilad. - gall cynnal a chadw fod ar ffurf: - gwaith cynnal a chadw wedi'i gynllunio a gwaith ataliol: yn cael ei wneud yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod rhywbeth yn gweithio'n gyson neu er mwyn ymestyn ei oes - gwaith cynnal a chadw cywirol: atgyweirio rhywbeth sydd wedi torri. Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r canlynol mewn perthynas â Llawlyfr ar gyfer Gweithredu a Chynnal a Chadw'r Adeilad: - rhoddir hwn i'r cleient neu'r defnyddiwr terfynol pan gwblheir y gwaith adeiladu - bydd yn cynnwys gwybodaeth ynghylch gweithredu, cynnal a chadw, datgomisiynu a dymchwel adeilad.
(d) Chwalu	Dylai'r dysgwyr ddeall y canlynol: - mae cynllun cyn dymchwel yn cynnwys manylion am y canlynol: - defnyddiau peryglus - cyfleustodau a datgysylltiadau - adeileddau a waliau cydrannol - amodau a chyfyngiadau'r safle. - mae angen ystyried gofynion statudol - gall dymchwel gynnwys defnyddio ffrwydron, dymchwel â llaw neu ddymchwel â pheiriant - mae gweithdrefnau'n cynnwys: - sefydlu gweithdrefnau diogelwch ar y safle - datgysylltu cyfleustodau - gwaredu defnyddiau peryglus - tynnu popeth nad yw'n adeileddol (<i>soft strip</i>) - tynnu aradeiledd i lawr - tynnu slabiau a sylfeini - gorffeniad y safle.

Cynnwys	Ymhelaethiad
(dd) Gwaredu, ailddefnyddio neu ailgylchu	Dylai dysgwyr ddeall y canlynol: - gall defnyddiau gwastraff gael eu hanfon yn syth i safle tirlenwi neu gael eu hadfer er mwyn eu hailddefnyddio neu eu hailgylchu. - gall gwaith adeiladu gynhyrchu llawer o wastraff felly gall fod yn fuddiol annog pobl i ailddefnyddio neu ailgylchu mwy, h.y. diogelu adnoddau naturiol, creu swyddi a lleihau llygredd.

2.1.3 Mathau o adeiladau ac adeileddau

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion y canlynol:

- adeiladau isel:
 - anheddu preswyl
 - adeiladau masnachol
 - adeiladau diwydiannol
 - adeiladau amaethyddol
 - adeiladau cymunedol
 - adeiladau crefyddol
 - adeiladau hamdden
- dulliau gwahanol o adeiladu isadeiledd.

Cynnwys	Ymhelaethiad
(a) Anheddu preswyl	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r canlynol mewn perthynas ag anheddu preswyl: - maent yn cael eu defnyddio fel lleoedd i fyw ynddynt - maent ymysg y mathau lleiaf o adeiladau - maent yn aml yn amrywio o ran lleoliad gydag adeileddau anheddu lluosog fel blociau o fflatiau mewn ardaloedd trefol a thai sengl mewn ardaloedd gwledig - maent yn aml wedi'u gwneud o adeiladwaith blociau neu adeiladwaith ffrâm bren - mae galw mawr amdanynt oherwydd bod prinder tai fforddiadwy ar gael yn y DU.
(b) Adeiladau masnachol	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r canlynol mewn perthynas ag adeiladau masnachol: - maent yn cael eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau neu gynhyrchion adwerthu i gwsmeriaid - maent yn cael eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau busnes, sydd fel arfer yn cael eu cynnal i wneud elw i'r perchenogion - maent fel arfer wedi'u haddasu i gyflawni pwrpas y busnes - gallant fod wedi'u hadeiladu at y pwrpas neu wedi'u trawsnewid fel y gellir newid defnydd - maent yn aml wedi'u lleoli mewn canolfannau adwerthu, yn nghanol trefi/dinasoedd neu'r tu allan iddynt
(c) Adeiladau diwydiannol	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r canlynol mewn perthynas ag adeiladau diwydiannol: - maent fel arfer yn adeiladau mwy, sydd wedi'u haddasu ar gyfer swyddogaethau penodol - maent fel arfer yn cael eu defnyddio ar gyfer storio, prosesu, peiriannu neu weithgynhyrchu defnyddiau - gallant fod yn rhan o ddatblygiad newydd, fel mewn parc diwydiannol modern, neu adeilad neu safle hŷn wedi'i adnewyddu

Cynnwys	Ymhelaethiad
(ch) Adeiladau amaethyddol	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r canlynol mewn perthynas ag adeiladau amaethyddol: • maent yn gysylltiedig â ffermio a'r diwydiant amaethyddol • gallant fod yn adeiladau hŷn wedi'u hadeiladu gan ddefnyddio defnyddiau a thechnegau traddodiadol • gallant fod yn adeiladau mawr modern, wedi'u dylunio i fod yn addas ar gyfer swyddogaeth benodol a'r dirwedd/amgylchedd gwledig y maent wedi'u lleoli.
(d) Adeiladau cymunedol	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r canlynol mewn perthynas ag adeiladau cymunedol: • maent yn cael eu defnyddio gan aelodau o gymuned • maent fel arfer wedi'u lleoli mewn lleoliad cyfleus i'r gymuned sy'n defnyddio'r adeilad • gallant fod yn adeiladau modern neu hŷn, weithiau wedi'u trawsnewid fel y gellir newid defnydd
(dd) Adeiladau crefyddol	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r canlynol mewn perthynas ag adeiladau crefyddol: • maent fel arfer yn gwasanaethu fel mannau addoli • maent yn amrywio'n sylweddol o ran oedran, maint ac arddull pensaernïol • maent yn aml yn cynnwys pensaerniaeth goeth, gyda thyrau neu gromenni, ac felly gallant fod yn rhai o'r adeileddau mwyaf mynegiannol a dylanwadol yn yr amgylchedd adeiledig lleol.
(e) Adeiladau hamdden	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r canlynol mewn perthynas ag adeiladau hamdden: • maent yn amrywio'n sylweddol o ran maint ac arddull • gallant fod yn adeiladau yn eu rhinwedd eu hunain neu'n estyniadau ar adeiladau eraill fel y gall busnes presennol gynnig gweithgareddau hamdden • gallant fod wedi'u dylunio ar gyfer swyddogaeth benodol neu amlbwrpas er mwyn cynnal amrywiaeth o swyddogaethau.
(f) Dulliau gwahanol o adeiladu isadeiledd	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r canlynol mewn perthynas ag adeiladu isadeiledd: • mae'n ymdrin ag amrywiaeth eang o swyddogaethau • gall effeithio'n sylweddol ar ansawdd bywyd drwy ddarparu manteision economaidd a chymdeithasol ar raddfa leol neu genedlaethol • gall fod yn ddadleuol oherwydd bod datblygwyr, awdurdodau cynllunio a chymunedau yn gorfod pwyso a mesur y manteision yn erbyn yr anfanteision, gan gynnwys difrod posibl i'r amgylchedd naturiol a chynnydd mewn allyriadau carbon.

2.1.4 Offer, technolegau a defnyddiau

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r offer, y technolegau a'r defnyddiau a ddefnyddir yn y sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig:

- prif elfennau a chydrannau adeiladau isel
- y prif ddefnyddiau sy'n gysylltiedig â chodi waliau, gosod gwasanaethau adeiladu, gosod toeon a gorffennu'r tu mewn
- technolegau a defnyddiau adnewyddadwy, gan gynnwys pypiau gwres, tyrbinau gwynt a phaneli solar.

Cynnwys	Ymhelaethiad
(a) Prif elfennau a chydrannau adeiladau isel	Dylai dysgwyr wybod mai prif elfennau a chydrannau adeiladau isel yw'r canlynol: • sylfeini • tanadeiledd • llawr gwaelod • aradeiledd: • waliau • lloriau uchaf • ffrâm • cynheiliaid to • cladin waliau • gorffeniadau to.
(b) Y prif ddefnyddiau sy'n gysylltiedig â chodi waliau, gosod gwasanaethau adeiladu, gosod toeon a gorffennu'r tu mewn	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol bod y defnyddiau a chydrannau canlynol yn cael eu defnyddio i godi waliau, gosod gwasanaethau adeiladu, gosod toeon a gorffennu'r tu mewn. Waliau allanol: • elfen adeileddol: gwaith maen cynnal pwysau (gwaith bloc inswleiddio), ffrâm adeileddol (dur neu bren), paneli wedi'u hinwsleiddio (SIP) • defnydd inswleiddio: rholiau ffibr mwynol, ewyn wedi'i chwistrellu, slabiau ewyn anhyblyg • cladin allanol: brics neu waith bloc wedi'i rendro, llenni dur, paneli ag arwyneb alwminiwm wedi'u hinwsleiddio, murlenni. Waliau a lloriau mewnol: • parwydydd bloc neu stydiau (pren neu ddur) • distiau llawr pren, concrit neu ddur Adeileddau eilaidd: • capanau drysau dur, distiau a cheibrau cypledig pren ar gyfer waliau gwaith maen • rheiliau llenni a thrawslathau ar gyfer fframiau dur. Gorffeniadau to: • teils wedi'u gwneud o lechi neu goncrit ar gyfer toeon cypledig pren • llenni dur dros hambyrddau leinin wedi'u hinwsleiddio ar gyfer adeileddau â fframiau dur • llenni rwyber neu wydr ffibr ar gyfer toeon gwastad.

Cynnwys	Ymhelaethiad
(b) Y prif ddefnyddiau sy'n gysylltiedig â chodi waliau, gosod gwasanaethau adeiladu, gosod toeon a gorffennu'r tu mewn (parhad)	Gorffeniadau mewnol: • sgridiau ac estyll llawr • bwrdd plastr ar gyfer waliau a nenfydau • plastr waliau ac addurniadau. Gwasanaethau adeiladu: • gwasanaethau sy'n dod i mewn sy'n cael eu rhedeg drwy waliau tanadeiledd ac yna eu hystyngiadau ar gyfer eu dosbarthu'n fewnol • systemau draenio mewnol sy'n cael eu rhedeg drwy waliau allanol er mwyn eu cysylltu â systemau tanddaearol. Defnyddiau gwasanaethau adeiladu: • pibellau plastig neu gopr ar gyfer gwasanaethau gwaith plymio a gwresogi • nwyddau dŵr glaw plastig a systemau draenio • ceblau copr ar gyfer systemau trydanol a chyfathrebu.
(c) Technolegau a defnyddiau adnewyddadwy, gan gynnwys pŷmpiau gwres, tyrbinau gwynt a phaneli solar	Dylai dysgwyr wybod y gellir cynhyrchu neu gasglu egni o ffynonellau adnewyddadwy, yn hytrach na'i gynhyrchu drwy losgi adnoddau meidraidd fel tanwyddau ffosil. Dylai dysgwyr ddeall prif egwyddorion y ffurfiau canlynol o dechnolegau adnewyddadwy a bod yn ymwybodol o brif fanteision a chyfyngiadau eu defnyddio: • egni solar: • egni ffotofoltaidd solar: trawsnewid golau'r haul yn drydan gan ddefnyddio celloedd/paneli ffotofoltaidd • egni thermol solar: trawsnewid golau'r haul yn egni thermol (neu wres). • tyrbinau gwynt: • harneisio pŵer y gwynt i gynhyrchu trydan • gellir gosod tyrbinau gwynt domestig ar bolion neu ar adeiladau. • pŷmpiau gwres: • ffynhonnell o'r ddaear: defnyddio pibellau tanddaearol er mwyn trosglwyddo gwres o'r ddaear i mewn i'r adeilad • ffynhonnell o'r aer: trosglwyddo gwres o'r aer y tu allan i adeilad i mewn i'r adeilad • ffynhonnell o ddŵr: trosglwyddo gwres o ffynhonnell o ddŵr y tu allan i adeilad i mewn i'r adeilad. • dŵr: • casglu dŵr glaw • aildefnyddio dŵr llwyd • cynhyrchu trydan gan ddefnyddio dŵr (llanw/trydan).

2.1.5 Adeileddau a ffurfiau adeiladau

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r adeileddau a'r ffurfiau adeiladau canlynol:

- adeiladweithiau cellol
- adeiladweithiau ffrâm betryal
- adeiladweithiau ffrâm bortol
- dulliau treftadaeth a dulliau traddodiadol.

Cynnwys	Ymhelaethiad
(a) Adeiladweithiau cellol	Dylai dysgwyr wybod y canlynol am adeiladweithiau cellol: • mae waliau cynnal pwysau yn darparu'r prif gynhaliad fertigol a sefydlogrwydd ochrol ar gyfer lloriau • defnyddir paneli waliau allanol, siafftiau lifft neu risiau er mwyn darparu sefydlogrwydd • mae cydrannau pontio fel lloriau, toeon a thrawstiau yn cael eu cynnal gan waliau cynnal pwysau.
(b) Adeiladweithiau ffrâm betryal	Dylai dysgwyr wybod y canlynol am adeiladweithiau ffrâm betryal: • mae pwysau'n cael ei gynnal gan sgerbwd neu fframwaith o golofnau a thrawstiau, yn hytrach na chael ei gynnal gan waliau. Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r canlynol: • mae ffrâm bren ysgafn yn adeiledd cyffredin a ddefnyddir wrth adeiladu tai cyfoes • defnyddir fframiau dur a concrit cyfnerth mewn adeileddau mwy o faint • mae adeiladau ffrâm masnachol, cyfoes wedi disodli waliau allanol traddodiadol gan ddefnyddio sgriniau metel a gwydr, neu furlenni, fel cladin allanol.
(c) Adeiladweithiau ffrâm bortol	Dylai dysgwyr wybod y canlynol am adeiladweithiau ffrâm bortol: • mae trawstiau neu geibrau yn cael eu cynnal gan golofnau ar y naill ben • mae'r uniadau rhwng y trawstiau a'r colofnau yn 'anhyblyg' fel y gellir lleihau maint y trawst a gall rychwantu pellteroedd hir Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r canlynol mewn perthynas ag adeiladweithiau ffrâm bortol: • yn aml maent wedi'u gwneud o ddur, concrit cyfnerth wedi'i rag-gastio, neu bren laminedig • maent yn ysgafn a gellir eu gweithgynhyrchu oddi ar y safle ac yna eu bolltio ar danadeiledd.

Cynnwys	Ymhelaethiad
(ch) Dulliau treftadaeth a dulliau traddodiadol	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r dulliau cynnal a chadw a ddefnyddir gan fasnachau treftadaeth a thraddodiadol: - dilyn rhaglen gynnal a chadw reolaidd er mwyn helpu i atal problemau bach rhag gwaethygu, neu ddirywiad pellach rhag digwydd - cydweddu defnyddiau a dulliau adeiladu presennol lle y bo'n bosibl - cadw cymaint o'r adeiladwaith gwreiddiol â phosibl mewn adeiladau sy'n arwyddocaol yn hanesyddol. Dylai dysgwyr ddeall pwysigrwydd dulliau treftadaeth a dulliau traddodiadol wrth gynnal a chadw'r amgylchedd adeiledig hanesyddol er mwyn gwneud y canlynol: - cynnal a chadw hanes a chymeriad adeilad - diogelu ein treftadaeth er budd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol - lleihau'r angen am ddefnyddiau newydd/diogelu defnyddiau ansawdd uchel presennol.

2.1.6 Dulliau adeiladu cynaliadwy

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r materion sy'n ymwneud â dulliau adeiladu cynaliadwy:

- manteision amgylcheddol, ariannol, diwylliannol a chymdeithasol dulliau adeiladu cynaliadwy
- llygredd a diogelu'r amgylchedd naturiol a chynefinoedd naturiol, gan gynnwys drwy ddatgarboneiddio
- defnyddiau cynaliadwy a ddefnyddir i greu fframiau adeiladau, waliau, toeon
- gwaredu gwastraff, aildefnyddio ac ailgylchu
- caniatâd cynllunio, safleoedd tir llwyd a safleoedd tir glas

Cynnwys	Ymhelaethiad
(a) Manteision amgylcheddol, ariannol, diwylliannol a chymdeithasol dulliau adeiladu cynaliadwy	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r manteision canlynol o ddefnyddio dulliau adeiladu cynaliadwy: - manteision ariannol: - lleihau gwastraff - defnyddio llai o egni - gwella effeithlonrwydd dŵr - lleihau costau gweithredu - ymestyn cylchred oes adeiladau cymaint â phosibl - manteision diwylliannol a chymdeithasol: - diogelu'r amgylchedd - helpu i osgoi disbyddu adnoddau naturiol - gall gwella ansawdd amgylcheddol: - wella cysur preswylwyr - creu amgylchedd deniadol - lleihau'r pwysau ar isadeiledd lleol - gwella cynhyrchedd.

Cynnwys	Ymhelaethiad
(b) Llygredd a diogelu'r amgylchedd naturiol a chynefinoedd naturiol, gan gynnwys drwy ddatgarboneiddio	Dylai dysgwyr ddeall y dylai dulliau adeiladu ystyried ffactorau gan gynnwys llygredd, diogelu'r amgylchedd naturiol a chynefinoedd naturiol. Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r dulliau canlynol i ddiogelu'r amgylchedd naturiol a chynefinoedd naturiol: - cyfyngu ar y llygredd sy'n cael ei ryddhau i ddŵr, i'r aer ac i'r ddaear wrth adeiladu'r amgylchedd adeiledig - gall sefydliadau fel Cyfoeth Naturiol Cymru wneud lleoedd yn ardaloedd gwarchodedig, sy'n gosod cyfyngiadau ar weithgareddau a datblygiadau - gall datblygwyr geisio lleihau'r effaith ar fyd natur drwy adeiladu twneli o dan ffyrdd er mwyn i fadfallod dŵr eu defnyddio, neu greu clwydau newydd ar gyfer ystlumod pan fydd eu clwydi gwreiddiol yn cael eu dinistrio oherwydd gwaith datblygu - lleihau allyriadau carbon deuocsid wrth adeiladu a defnyddio'r amgylchedd adeiledig.
(c) Defnyddiau cynaliadwy a ddefnyddir i greu fframiau adeiladau, waliau, toeon	Dylai dysgwyr ddeall y canlynol: - mae pren yn ddefnydd adeiladu adnewyddadwy ac mae'n cael ei ddefnyddio'n gyffredin wrth adeiladu tai - mae dur a ddefnyddir wrth adeiladu yn cynnwys elfennau wedi'u hailgylchu a gellir adfer dur a'i ailgylchu eto - gellir defnyddio brics wedi'u hailgylchu er mwyn creu waliau - gellir defnyddio beliau gwellt er mwyn creu waliau o fewn ffrâm. - gellir defnyddio gwlân fel defnydd inswleiddio yn hytrach na gwydr ffibr neu bolywrethan - gellir defnyddio llechi neu deils, gwellt neu fyrddau pren wedi'u hadfer ar doeon.
(ch) Gwaredu gwastraff, ailddefnyddio ac ailgylchu	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r canlynol mewn perthynas â gwaredu gwastraff, ailddefnyddio ac ailgylchu defnyddiau: - gwaredu gwastraff - yn cynnwys dosbarthu defnyddiau gwastraff: gwastraff peryglus, gwastraff nad yw'n beryglus, tarddiad, priodweddau - costau tirlenwi: ariannol, amgylcheddol, cymdeithasol. - ailddefnyddio - gellir ailddefnyddio cynhyrchion adeiladu wedi'u hadfer heb fawr ddim gwaith ailbrosesu, os o gwbl, fel arfer brics, llechi, darnau dur - caiff effaith amgylcheddol ailbrosesu ei lleihau. - ailgylchu - mae prosesau fel arfer yn cynnwys malu, mwyndoddi, dadlygru, didoli - mae amrywiaeth eang o ddefnyddiau terfynol posibl i goncrit, pren, metelau, gwydr a phlastigion wedi'u hailgylchu.

Cynnwys	Ymhelaethiad
(d) Caniatâd cynllunio, safleoedd tir llwyd a safleoedd tir glas	Dylai dysgwyr wybod: - system sy'n galluogi Awdurdodau Cynllunio Lleol i reoli'r broses o ddatblygu'r amgylchedd adeiledig yn eu hardal yw caniatâd cynllunio. Dylai dysgwyr ddeall bod y canlynol yn wir am safleoedd tir llwyd: - mae'r rhain wedi cael eu defnyddio yn y gorffennol ac maent yn tueddu i fod yn dir segur neu ddiffaith - efallai fydd yn rhaid dymchwel adeiladau presennol ac mae'n bosibl y bydd costau glanhau er mwyn dadlygru'r tir - gall ailddatblygu safleoedd tir llwyd lanhau peryglon i iechyd yr amgylchedd a thacluso ardaloedd hyll. Dylai dysgwyr ddeall bod y canlynol yn wir am safleoedd tir glas: - nid oes adeiladau wedi'u codi arnynt yn flaenorol - maent yn tueddu i fod yn rhatach i'w datblygu, yn amodol ar gyfyngiadau cyfreithiol a chyfyngiadau cynllunio - gwaith isadeiledd h.y. rhaid ystyried ffyrdd newydd a chysylltiadau cyfleustodau.

2.1.7 Crefftau, cyflogaeth a gyrfaoedd

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r meysydd canlynol:

- pensaernïaeth
- peirianeg sifil a pheirianeg adeileddol
- rheoli safle adeiladu
- tirfesur
- gosod brics
- plastro
- gwaith saer ac asiedydd
- trydan
- peirianeg nwy
- gwaith plymio
- peintio, addurno a gorffennu.

Cynnwys	Ymhelaethiad
(a) Pensaernïaeth	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol bod pensaer yn gwneud y canlynol: - creu adeiladau newydd ac/neu'n adnewyddu neu'n newid adeiladau presennol - creu dyluniadau i fodloni gofynion cleientiaid ynghyd â rheoliadau, deddfwriaeth a gofynion amgylcheddol - creu lluniadau manwl ar gyfer y contractwr.
(b) Peirianeg sifil a pheirianeg adeileddol	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol bod peiriannydd sifil a pheiriannydd adeileddol yn gwneud y canlynol: - dylunio, cynllunio a rheoli projectau adeiladu - datrys problemau sy'n ymwneud â dylunio a datblygu - asesu risgiau posibl o fewn project.

Cynnwys	Ymhelaethiad
(c) Rheoli safle adeiladu	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol bod rheolwr safle adeiladu yn: - gyfrifol am y rhan fwyaf o weithgareddau ar safle adeiladu - rheoli'r safle a'r gweithlu, gan gynnwys o ran iechyd a diogelwch ac ansawdd - cysylltu â chleientiaid ac adrodd am gynnydd.
(ch) Tirfesur	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol bod tirfesydd yn gwneud y canlynol: - mesur tir, gan fesur nodweddion presennol yr amgylchedd naturiol a'r amgylchedd adeiledig - cynhyrchu data a lluniadau ar gyfer penseiri a pheirianwyr.
(d) Gosod brics	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol bod gosodwr brics yn: - gweithio yn unol â chynlluniau a manylbau - codi adeileddau drwy daenu haenau o forter a gosod brics/blociau arnynt, gan wirio eu haliniad fertigol a llorweddol - selio sylfeini gan ddefnyddio defnyddiau sy'n gwrthsefyll lleithder
(dd) Plastro	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol bod plastrwr yn: - rhoi gorffeniadau gwlyb a gorchuddion amddiffynnol ar waliau allanol - rhoi plastr ar waliau mewnol a nenfydau - creu gwaith plastr addurnol gan ddefnyddio plastr, mowldiau a chastiau.
(e) Gwaith saer ac asiedydd	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol bod asiedydd yn: - uno darnau o bren mewn gweithdy, y mae saer yn eu gosod yn eu lle ar y safle. Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol bod saer yn: - gosod distiau llawr, estyll, cyplau to a pharwydydd - gosod gwaith pren mewnol – grisiau, drysau, byrddau sgyrtn, cypyrddau a cheginau.
(f) Trydan	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol bod trydanwr yn: - gosod, archwilio a phrofi cyfarpar trydanol - dilyn rheoliadau diogelwch perthnasol.
(ff) Peirianneg nwy	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol bod peiriannydd nwy yn: - gosod, archwilio a phrofi gwasanaethau a chyfarpar nwy - dilyn rheoliadau diogelwch perthnasol
(g) Gwaith plymio	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol bod plymiwr yn: - gosod cyflenwad dŵr oer a dŵr poeth, cyfleusterau iechydaeth (toiledau) a systemau gwres canolog - dilyn rheoliadau diogelwch perthnasol.
(ng) Peintio, addurno a gorffennu	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol bod peintiwr ac addurnwr yn: - paratoi a rhoi paent, papur wal a gorffeniadau eraill ar arwynebau mewnol - paratoi a rhoi paent a gorffeniadau eraill ar arwynebau allanol.

2.1.8 Iechyd a diogelwch

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o iechyd a diogelwch mewn perthynas â'r canlynol:

- risgiau i weithwyr, cyflogwyr a'r cyhoedd yn ystod projectau adeiladu a'r amgylchedd adeiledig
- dilyn gweithdrefnau a chynnal asesiadau risg
- deddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) 2002 (fel y'u diwygiwyd)
- defnyddio cyfarpar diogelu personol
- gweithio'n ddiogel â nwy, dŵr a thrydan
- gweithio o uchder ac mewn mannau caeedig.

Cynnwys	Ymhelaethiad
(a) Risgiau i weithwyr, cyflogwyr a'r cyhoedd yn ystod projectau adeiladu a'r amgylchedd adeiledig	Dylai dysgwyr ddeall bod safleoedd adeiladu yn amgylcheddau peryglus sydd â llawer o risgiau: • mae gweithwyr yn wynebu risg wrth weithio o uchder, codi a chario a lithro, baglu a chwympo • mae cyflogwyr yn gyfrifol am sicrhau bod safleoedd yn gweithredu'n ddiogel a gallant fod yn atebol os bydd damwain neu ddigwyddiad • gall y cyhoedd wynebu risg o ganlyniad i ddefnyddiau niweidiol a thraffig os byddant yn agos at safle adeiladu neu'n cael mynediad i'r safle.
(b) Dilyn gweithdrefnau a chynnal asesiadau risg	Dylai dysgwyr ddeall pwysigrwydd dilyn y gweithdrefnau (rheolau) cywir fel y gall contractwyr a gweithwyr weithio'n ddiogel ac atal damweiniau ac anafiadau. Dylai dysgwyr wybod bod asesiadau risg yn cynnwys: • asesiadau cyffredinol o risgiau i iechyd a diogelwch ar safleoedd adeiladu • asesiadau penodol ar gyfer rhai peryglon – gweithio o uchder, codi a chario, sŵn.
(c) deddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) 2002 (fel y'u diwygiwyd)	Dylai dysgwyr ddeall bod y rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr reoli cysylltiad â sylweddau peryglus er mwyn atal salwch neu anaf drwy: • asesu risgiau • penderfynu pa ragofalon y mae eu hangen • atal (neu reoli) cysylltiad • sicrhau bod mesurau rheoli yn cael eu dilyn • monitro lefel y cysylltiad • paratoi gweithdrefnau er mwyn delio â damweiniau • hyfforddiant a goruchwyllo gweithwyr.
(ch) Defnyddio cyfarpar diogelu personol	Dylai dysgwyr ddeall pwysigrwydd defnyddio'r cyfarpar diogelu personol cywir er mwyn diogelu'r sawl sy'n ei wisgo rhag risgiau i'w iechyd a'i ddiogelwch, gan gynnwys risg o anaf i'r: • croen • ysgyfaint • pen • llygaid • clustiau.

Cynnwys	Ymhelaethiad
(d) Gweithio'n ddiogel â nwy, dŵr a thrydan	Dylai dysgwyr ddeall pwysigrwydd dilyn y gweithdrefnau diogelwch canlynol wrth weithio gyda nwy, dŵr a thrydan: • dim ond person cymwys ddylai weithio ar y pethau hyn • dylid dilyn gweithdrefnau a chymryd rhagofalon priodol • dylid defnyddio cyfarpar diogelu • dylid gwybod sut i ddiffodd y cyflenwad nwy, dŵr neu drydan.
(dd) Gweithio o uchder ac mewn mannau caeedig	Dylai dysgwyr ddeall bod angen dilyn y gweithdrefnau canlynol er mwyn sicrhau diogelwch: • rhaid i'r rhai sy'n gweithio o uchder: • fod wedi'u hyfforddi'n briodol a dilyn proses wedi'i chynllunio a'i threfnu'n gywir • ystyried amodau tywydd (os yw hynny'n briodol) • defnyddio cyfarpar sydd wedi'i archwilio'n briodol • rheoli risgiau o ganlyniad i arwynebau bregus a gwrthrychau'n cwmpo • rhaid i'r rhai sy'n gweithio mewn mannau caeedig reoli risgiau o: • gysylltiad â mygdarthau • lefelau is o ocsigen • llifogydd/boddi • tân. Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol bod rhaid cael trefniadau ar waith er mwyn tynnu'r person o'r man caeedig yn ddiogel ac yn brydlon os bydd yn mynd yn sâl.

2.2 Uned 2

Creu'r amgylchedd adeiledig

Asesiad di-arholiad: tua 25 awr
40% o'r cymhwyster
80 marc

Trosolwg o'r uned

Yn yr uned hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o greu'r amgylchedd adeiledig a'r sgiliau sydd ynghlwm wrth hynny. Mae dysgwyr yn dilyn un llwybr drwy'r uned hon; naill ai *dylunio'r amgylchedd adeiledig* neu *adeiladu'r amgylchedd adeiledig*.

Mae'r asesiad di-arholiad hwn yn cynnwys tasg a osodir gan CBAC ar gyfer pob un o'r llwybrau sydd ar gael, a ddangosir yn Atodiad B. Bydd CBAC yn cyhoeddi cyd-destunau awgrymedig ar gyfer Uned 2 Llwybr A ac Uned 2 Llwybr B yn Atodiad B y fanyleb, ac yn adnewyddu'r rhain bob dwy gyfres arholiadau. Bydd gan ddysgwyr yr opsiwn o ddefnyddio'r cyd-destunau hyn, eu haddasu nhw, neu ddyfeisio cyd-destun eu hunain.

Bydd y dystiolaeth a gyflwynir gan ddysgwyr yn amrywio ar gyfer pob un o'r llwybrau:

- Yn Llwybr A, *dylunio'r amgylchedd adeiledig*, mae'n ofynnol bod dysgwyr yn cyflwyno eu gwaith mewn dogfen maint A4 neu A3 (neu ddogfen sy'n cynnwys cyfuniad o'r ddau faint, e.e. gyda lluniadau a chynlluniau ar bapur A3 a gweddill y dasg ar bapur A4).
- Yn Llwybr B, *adeiladu'r amgylchedd adeiledig*, mae'n ofynnol bod dysgwyr yn cyflwyno eu gwaith ysgrifenedig a'u lluniadau mewn dogfen maint A4 neu A3 (neu ddogfen sy'n cynnwys cyfuniad o'r ddau faint). Yn ogystal, mae'n ofynnol bod dysgwyr yn cyflwyno tystiolaeth o'u gwaith adeiladu gan ddefnyddio ffotograffau lliw. Mae'n bwysig bod y ffotograffau o ansawdd digonol a bod digon ohonynt er mwyn dangos yn glir nodweddion/manylion perthnasol y gwaith adeiladu.

O fewn y dasg, gall dysgwyr gynnwys testun byr ac estynedig, lluniau digidol/ffotograffau, lluniau/diagramau wedi'u hanodi i gyd-fynd â natur y dasg a'u diddordebau. Er bod y dull cyflwyno'n hyblyg, dylai athrawon sicrhau bod gan waith dysgwyr y potensial i fynd i'r afael â'r holl feini prawf asesu perthnasol.

Dylid rhoi'r cyfle i ddysgwyr feithrin eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth mewn perthynas â naill ai:

- yr wyth maes cynnwys a nodir ar dudalennau 24 i 30 ar gyfer *dylunio'r amgylchedd adeiledig*, neu
- y deg maes cynnwys a nodir ar dudalennau 31 i 40 ar gyfer *adeiladu'r amgylchedd adeiledig*.

Ceir crynodeb o feysydd y cynnwys yn y tablau isod. Ceir manylion llawn yn adrannau'r cynnwys sy'n dilyn.

Meysydd cynnwys

Llwybr A	
Dylunio'r amgylchedd adeiledig	
2.2.1a	Nodi a chyfrifo gwybodaeth
2.2.2a	Ysgrifennu a gosod meini prawf llwyddiant
2.2.3a	Lluniadu cynlluniau
2.2.4a	Lluniadu golygon
2.2.5a	Defnyddio iaith ddrafftio
2.2.6a	Lluniadu cynlluniau dau ddimensiwn
2.2.7a	Creu rhith-fodelau a chynlluniau tri dimensiwn
2.2.8a	Gwerthuso tasgau dylunio

Llwybr B	
Adeiladu'r amgylchedd adeiledig	
2.2.1b	Dehongli ffynonellau gwybodaeth technegol
2.2.2b	Cynllunio a threfnu gwaith
2.2.3b	Nodi gofynion o ran adnoddau
2.2.4b	Cyfrifo'r defnyddiau y mae eu hangen
2.2.5b	Ysgrifennu a gosod meini prawf llwyddiant
2.2.6b	Paratoi ar gyfer tasgau adeiladu
2.2.7b	Cyflawni technegau
2.2.8b	Symud defnyddiau a'u gwaredu
2.2.9b	Defnyddio arferion gwaith sy'n hybu iechyd a diogelwch
2.2.10b	Gwerthuso tasgau adeiladu

Llwybr A – dylunio'r amgylchedd adeiledig

2.2.1a Nodi a chyfrifo gwybodaeth

Yn yr adran hon, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau mewn perthynas â nodi a chyfrifo'r wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer dyluniadau adeiladu, o ran:

- arwynebedd
- cyfaint
- hyd
- onglau
- gofynion dylunio lefel uwch.

Cynnwys	Ymhelaethiad
(a) Arwynebedd	Dylai dysgwyr wybod sut i gyfrifo arwynebeddau er mwyn: • cyfrifo faint o ddefnyddiau y mae eu hangen • amcangyfrif costau.
(b) Lefel sain	Dylai dysgwyr wybod sut i gyfrifo cyfeintiau er mwyn: • cyfrifo faint o ddefnyddiau y mae eu hangen • amcangyfrif costau.
(c) Hyd	Dylai dysgwyr wybod sut i fesur pellterau ar gyfer ystyriaethau dylunio fel: • llwybrau gwacáu • clirio ffiniau • rychwantau er mwyn amcangyfrif dyfnderau adeileddol.
(ch) Onglau	Dylai dysgwyr wybod sut i gyfrifo effaith gogwyddau newidiol ar rychwantau, cyfeintiau a faint o ddefnyddiau (e.e. teils to) y mae eu hangen.
(d) Gofynion dylunio lefel uwch	Dylai dysgwyr wybod sut i wneud cyfrifiadau sy'n gysylltiedig â'r gofynion dylunio lefel uwch canlynol o ran dyluniadau adeiladu: • arwynebedd • uchder y nenfwd • cynllun yr ystafelloedd • ardal awyr agored • y defnydd o egni.

2.2.2a Ysgrifennu a gosod meini prawf llwyddiant

Yn yr adran hon, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau mewn perthynas ag ysgrifennu a gosod meini prawf llwyddiant priodol ar gyfer project i fodloni ffiniau diffiniedig, o ran:

- lefelau goddefiant
- graddfeydd amser
- ansawdd.

Cynnwys	Ymhelaethiad
(a) Lefelau goddefiant	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol y gall goddefiant project olygu'r canlynol: • cynnydd neu leihad o gost neu amser a gynlluniwyd • gwyriadau oddi wrth ansawdd a/neu cwmpas. Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol y gall goddefiannau adeiladu olygu amrywiadau a ganiateir o ran: • dimensiynau • cryfder, sefydlogrwydd, cymysgedd a pherfformiad nad ydynt yn cael eu hystyried yn ddiffygion
(b) Graddfeydd amser	Dylai dysgwyr ddeall mai un o ffactorau llwyddiant hanfodol project yw bodloni'r terfyn amser. Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r technegau rheoli projectau canlynol a ddyluniwyd i helpu i fodloni terfynau amser: • gosod graddfeydd amser realistig • datblygu cynlluniau a siartiau Gantt • dadansoddi llwybr critigol • dyrannu adnoddau • gosod cerrig milltir • defnyddio cynlluniau wrth gefn.
(c) Ansawdd	Dylai dysgwyr ddeall bod projectau adeiladu yn gofyn am gydbwysedd rhwng cost, amser ac ansawdd. Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol y gellir diffinio ansawdd, mewn perthynas â chynhyrchion a defnyddiau, gan: • gyfeirio at safonau • nodi priodoleddau • enwebu cyflenwyr. Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol y gellir diffinio ansawdd, mewn perthynas â chreffftwaith, gan: • gydymffurfio â gofynion gwneuthurwyr • cyfeirio at god ymarfer neu safonau • cymeradwyo samplau • profi ac archwilio.

2.2.3a Lluniadu cynlluniau

Yn yr adran hon, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau mewn perthynas â lluniadu mathau gwahanol o gynlluniau, gan gynnwys gwneud lluniadau wrth raddfa yn fwy ac yn llai, gan ddefnyddio confensiynau:

- cynlluniau bloc
- cynlluniau llawr
- trawstoriadau
- lluniadau wrth raddfa.

Cynnwys	Ymhelaethiad
(a) Cynlluniau bloc	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol bod cynlluniau bloc yn cael eu lluniadu wrth raddfa a'u bod yn dangos: • lleoliad • isadeiledd lleol • cynllun y safle, gan gynnwys llwybrau mynediad i gerddwyr a cherbydau, lleoedd parcio a gwaith tirlunio. Dylai dysgwyr allu cynhyrchu cynlluniau bloc manwl gywir gan ddefnyddio offer lluniadu neu becyn Cynllunio drwy Gymorth Cyfrifiadur (CAD).
(b) Cynlluniau llawr	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol bod cynlluniau llawr yn cael eu lluniadu wrth raddfa a'u bod yn dangos: • cynlluniau ystafelloedd • sut caiff dodrefn eu gosod • llwybrau cylchredeg llorweddol • llwybrau cylchredeg fertigol • gosodiadau mewnol. Dylai dysgwyr allu cynhyrchu cynlluniau llawr manwl gywir gan ddefnyddio offer lluniadu neu becyn CAD.
(c) Trawstoriadau	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol bod trawstoriadau yn cael eu lluniadu wrth raddfa a'u bod yn dangos: • uchder lloriau • gwagleoedd gwasanaethau • llwybrau cylchredeg fertigol • dyfnderau lloriau adeileddol • adeileddau toeon. Dylai dysgwyr allu cynhyrchu trawstoriadau manwl gywir gan ddefnyddio offer lluniadu neu becyn CAD.
(ch) Lluniadau wrth raddfa	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol bod lluniadau a grëwyd wrth raddfeydd cydnabyddedig (Safonau Prydeinig – BS) fel y nodir yn BS 1192, yn gyffredinol yn: • 1:1, 1:5 ac 1:10 ar gyfer manylion adeiladu • 1:50, 1:100, 1:200 ar gyfer cynllun a chynlluniau safle • 1:1250 ar gyfer cynlluniau lleoliad. Dylai dysgwyr allu cynhyrchu lluniadau wrth raddfa manwl gywir gan ddefnyddio offer lluniadu neu becyn CAD.

2.2.4a Lluniadu golygon

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau mewn perthynas â lluniadu golygon, gan ddefnyddio confensiynau a gofynion golygon:

- mewnol
- allanol – cefn (gogledd); blaen (de); y chwith (dwyrain); y dde (gorllewin).

Cynnwys	Ymhelaethiad
(a) Mewnol	Dylai dysgwyr allu cynhyrchu cynrychioliadau 2D manwl gywir o arwynebau wal er mwyn dangos ble bydd pethau fel unedau cegin, peiriannau a gosodiadau yn cael eu gosod, gan gynnwys: • drysau • lleoedd tân • ffenestri • goleuadau ar waliau • pwyntiau trydan a switshys gan ddefnyddio offer lluniadu neu becyn CAD.
(b) Allanol:	Dylai dysgwyr allu cynhyrchu cynrychioliadau 2D manwl gywir o arwynebau waliau allanol a thoeon gan gynnwys: • ffenestri • drysau • gorffeniadau • trimiau to a nwyddau dŵr glaw gan ddefnyddio offer lluniadu neu becyn CAD.
• Y cefn (gogledd)	Dylai dysgwyr allu cynhyrchu golwg allanol yn wynebu'r gogledd, gan gynnwys manylion fel yr amlinellwyd uchod.
• Y blaen (de)	Dylai dysgwyr allu cynhyrchu golwg allanol yn wynebu'r de, gan gynnwys manylion fel yr amlinellwyd uchod.
• Y chwith (dwyrain)	Dylai dysgwyr allu cynhyrchu golwg allanol yn wynebu'r dwyrain, gan gynnwys manylion fel yr amlinellwyd uchod.
• Y dde (gorllewin)	Dylai dysgwyr allu cynhyrchu golwg allanol yn wynebu'r gorllewin, gan gynnwys manylion fel yr amlinellwyd uchod.

2.2.5a Defnyddio iaith ddrafftio

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau mewn perthynas ag iaith ddrafftio, gan gynnwys:

- ymwybyddiaeth o Safonau Prydeinig (BS) (BS 1992:2007 + A2:2016 a diweddariadau dilynol, Modelu Gwybodaeth am Adeiladu)
- confensiynau – anodiadau; llinellau; lliniogi
- amrywiaeth o symbolau.

Cynnwys	Ymhelaethiad
(a) Safonau Prydeinig (BS) (BS 1992:2007 + A2:2016 a diweddariadau dilynol, Modelu Gwybodaeth am Adeiladu)	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol bod BS 1992:2007 fel y'i diwygiwyd i BS EN ISO 19650, 2018 yn god ymarfer ar gyfer cynhyrchu gwybodaeth yn y sector pensaerniaeth, peirianeg ac adeiladu a ddefnyddir mewn modelu gwybodaeth am adeilad, ei fformatau a'i safonau. Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol: • mae Modelu Gwybodaeth am Adeiladu (BIM) yn fframwaith ar gyfer amgylchedd gwaith cydweithredol • mewn Modelu Gwybodaeth am Adeiladu, mae timau'n llunio a rhannu gwybodaeth ddigidol gan ddefnyddio prosesau safonedig a safonau a dulliau y cytunwyd arnynt.
(b) Confensiynau:	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol: • mae rheolau ynglŷn ag anodi, llinellau, lliniogi a'r defnydd o symbolau wedi'u safoni drwy'r diwydiant • mae defnyddio rheolau (neu gonfensiynau) yn lleihau amser lluniadu a'r lle sydd ei angen i gyfleu gwybodaeth.
• Anodi	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o dechnegau argraffu a thalfyriadau cyffredin yn cynnwys y canlynol: • FFL (lefel llawr gorffenedig – <i>finished floor level</i>) • DRG (lluniad – <i>drawing</i>) • DIM (dimensiwn).
• Llinellau	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r defnyddiau canlynol o linellau: • llinellau trwchus i amlinellu gwrthrychau agos • llinellau tenau ar gyfer dimensiynau, lliniogi ac i amlinellu gwrthrychau pell • llinellau dotiog neu doredig ar gyfer llinellau yn y canol neu i amlinellu gwrthrychau aneglur.
• Lliniogi	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r defnydd o liniogi er mwyn dangos y canlynol mewn adran: • brics • blociau • pren • concrit • seiliau caled.
(c) Amrywiaeth o symbolau	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r defnydd o symbolau mewn lluniadau adeiladu i leihau amser lluniadu ac i ddangos y math o gyfarpar penodol a'i leoliad, gan gynnwys: • gosodiadau glanweithiol • pwyntiau trydan a switshys.

2.2.6a Lluniadu cynlluniau dau ddimensiwn

Yn yr adran hon, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau mewn perthynas â lluniadu cynlluniau 2D o ddyluniadau adeiladu drwy:

- ddatblygu cynlluniau
- mireinio cysyniadau
- braslunio lluniadau technegol.

Cyflwynir dysgwyr i:

- gonfensiynau a gofynion cynlluniau 2D o ddyluniadau adeiladu.

Cynnwys	Ymhelaethiad
(a) Confensiynau a gofynion cynlluniau 2D o ddyluniadau adeiladu.	Dylai dysgwyr allu defnyddio pecyn CAD i: • ddatblygu cynlluniau a lluniadau dylunio eraill i ddangos cynigion dylunio adeiladau • mireinio cysyniadau a syniadau dylunio cychwynnol mewn ymateb i adborth ac i ddangos cynigion dylunio adeiladau wedi'u mireinio • cynhyrchu lluniadau technegol i'w defnyddio wrth greu cynigion dylunio adeiladau.

2.2.7a Creu rhith-fodelau a chynlluniau tri dimensiwn

Yn yr adran hon, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau mewn perthynas â chreu rhith-fodelau a chynlluniau 3D o ddyluniadau adeiladu, gan gynnwys:

- ychwanegu golygfeydd, cefndiroedd ac amgylchoedd
- rendro
- gwella cynigion
- creu golygfeydd 360°
- ychwanegu cydrannau adeiladau, manylion a lliw.

Cyflwynir dysgwyr i:

- gonfensiynau a gofynion rhith-fodelau a chynlluniau 3D o ddyluniadau adeiladu.

Cynnwys	Ymhelaethiad
(a) Confensiynau a gofynion rhith-fodelau a chynlluniau 3D o ddyluniadau adeiladu.	Dylai dysgwyr allu defnyddio pecyn CAD i ddatblygu modelau 3D o luniadau dylunio adeiladau 2D: • ychwanegu golygfeydd, cefndiroedd ac amgylchoedd at fodel 3D o adeilad • rendro gorffeniadau allanol (lliw a gwead) model 3D o adeilad • ychwanegu nodweddion fel delweddau o bobl, cerbydau ac elfennau tirlunio er mwyn gwella model 3D o adeilad • creu golygfeydd 360° o fodel 3D o adeilad, gan gynnwys cylchdroi • ychwanegu cydrannau adeiladau, manylion eraill a lliw at fodel 3D o adeilad.

2.2.8a Gwerthuso tasgau dylunio

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau mewn perthynas â gwerthuso ansawdd tasgau dylunio wedi'u cwblhau, gan gynnwys sut gellir gwerthuso canlyniadau yn erbyn:

- gofynion y briff
- meini prawf llwyddiant a osodwyd yn bersonol
- anghenion defnyddwyr terfynol, gan gynnwys eu diogelwch.

Cynnwys	Ymhelaethiad
(a) Gofynion y briff	Dylai dysgwyr allu gwerthuso tasg ddylunio orffenedig yn erbyn gofynion y project gan ystyried: • gwelliannau pellach posibl i'r dyluniad • gwelliannau pellach posibl i'r cyflwyniad • rhannau o'r project a oedd yn heriol.
(b) Meini prawf llwyddiant a osodwyd yn bersonol	Dylai dysgwyr allu gwerthuso tasg ddylunio orffenedig yn erbyn meini prawf llwyddiant a osodwyd yn bersonol gan ystyried: • a oedd pob agwedd ar y dasg o fewn y lefelau goddefiant • a gwblhawyd y dasg o fewn y raddfa amser a bennwyd • a gwblhawyd y dasg i'r safonau gofynnol o ran ansawdd.
(c) Anghenion defnyddwyr terfynol, gan gynnwys eu diogelwch	Dylai dysgwyr allu gwerthuso tasg ddylunio orffenedig yn erbyn anghenion defnyddwyr terfynol gan ystyried: • eu hiechyd a'u diogelwch • pwrpas arfaethedig canlyniad y dasg ddylunio.

Llwybr B – adeiladu'r amgylchedd adeiledig

Yn *adeiladu'r amgylchedd adeiledig*, mae'n ofynnol bod ymgeiswyr yn datblygu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth mewn dau faes a ddewisir o'r canlynol:

- tecstilau
- pren
- brics
- plastr
- addurno
- teils
- trydan
- gwaith plymio
- treftadaeth.

O'r profiadau hyn, dylid ymdrin ag un gyda ffocws cyfoes a'r llall gyda ffocws traddodiadol (lle y bo hynny'n berthnasol i'r meysydd a ddewiswyd).

2.2.1b Dehongli ffynonellau gwybodaeth technegol

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau mewn perthynas â dehongli amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth technegol, gan ddefnyddio symbolau, confensiynau a therminoleg y canlynol:

- manylebau
- rheoliadau adeiladu
- lluniadau
- briffiau dylunio.

Cynnwys	Ymhelaethiad
(a) Manylebau	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol: • bod manylebau yn fanylion penodol am y gofynion, wedi'u cyflwyno ar ffurf testun a/neu luniadau gan ddefnyddio symbolau a therminoleg y safon ryngwladol y mae'n rhaid eu dehongli cyn dechrau adeiladu. • mae manylebau'n cynnwys: • defnyddiau • cwmpas y gwaith • y broses osod • ansawdd.
(b) Rheoliadau adeiladu	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol bod rheoliadau adeiladu yn: • gwarchod diogelwch, iechyd a lles pobl mewn adeiladau ac o'u cwmpas • gwella prosesau i arbed tanwydd a phŵer, gwarchod a gwella'r amgylchedd a hybu datblygu cynaliadwy • ymdrin â'r gwaith o godi ac estyn adeiladau • ymdrin â phrojectau newid o bosibl hefyd felly mae'n bwysig gwneud yn siŵr cyn i waith ddechrau.

Cynnwys	Ymhelaethiad
(c) Lluniadau	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol: - bod lluniadau a grëwyd wrth raddfeydd cydnabyddedig (Safonau Prydeinig – BS) fel y nodir yn BS 1192, yn gyffredinol yn: 1:1, 1:5 ac 1:10 ar gyfer manylion adeiladu 1:50, 1:100, 1:200 ar gyfer cynllun a chynlluniau safle 1:1250 ar gyfer cynlluniau lleoliad. - gall lluniadau fod yn rhai 2D neu 3D a gallant gynnwys manylion adeiladol a lleoliad cydrannau.
(ch) Briffiau dylunio	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol bod briff dylunio ar gyfer project adeiladu yn: - cael ei ddatblygu gan ddylunydd y project/y tîm dylunio mewn ymgynghoriad â'r cleient - amlinellu'r hyn y gellir ei gyflawni a chwmpas y project, gan gynnwys unrhyw gynhyrchion neu waith, y raddfa amser a'r gyllideb.

2.2.2b Cynllunio a threfnu gwaith

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau mewn perthynas â chynllunio a threfnu gwaith sy'n bodloni gofynion penodol, gan gynnwys:

- sut mae gwaith yn cael ei gynllunio a'i roi mewn trefn er mwyn bodloni terfynau amser a chydymffurfio ag arferion iechyd a diogelwch perthnasol.

Cynnwys	Ymhelaethiad
(a) Sut mae gwaith yn cael ei gynllunio a'i roi mewn trefn er mwyn bodloni terfynau amser a chydymffurfio ag arferion iechyd a diogelwch perthnasol	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol: - mewn projectau adeiladu, mae'r gwaith o roi pethau mewn trefn yn gysylltiedig â'r fanyleb, y briff dylunio a'r lluniadau. - gosodir amserlen ar gyfer y gwaith hwn ac mae angen iddo fodloni rheoliadau adeiladu a gofynion iechyd a diogelwch. - mae angen i'r broses o drefnu'r gwaith ystyried camau hanfodol unrhyw weithgaredd sy'n cael ei wneud. Mae hyn yn cynnwys cael yr offer, y cyfarpar a'r cyfarpar diogelu personol (PPE) cywir yn ogystal â'r defnyddiau cywir i gwblhau'r gweithgaredd. - Bydd trefn waith sydd wedi'i dylunio'n dda yn creu llif rhesymegol ac effeithlon o waith sy'n ystyried yr amser mae'n ei gymryd i gwblhau tasgau penodol a phan fydd un dasg yn ddibynnol ar gwblhau un arall yn gyntaf.

2.2.3b Nodi gofynion o ran adnoddau

Yn yr adran hon, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau mewn perthynas â nodi'r adnoddau sy'n ofynnol, ar gyfer y ddau faes crefft a ddewiswyd, er mwyn bodloni'r gofynion dilynio:

Cynnwys	Ymhelaethiad
(a) Offer	Dylai dysgwyr ddeall y canlynol: - bydd yr offer, y cyfarpar, y cyfarpar diogelu personol a'r defnyddiau sy'n ofynnol yn dibynnu ar y meysydd crefft a ddewiswyd a hefyd y tasgau sy'n cael eu gwneud yn y meysydd hynny - dylid creu rhestr o'r holl offer gofynnol cyn gweithio ar dasg adeiladu er mwyn sicrhau y gellir cwblhau pob cam o'r dasg mor effeithlon ac effeithiol â phosibl - dylai'r rhestr o offer ymdrin â phob cam o'r dasg adeiladu, gan gynnwys paratoi a gorffennu defnyddiau - sut a pham bod pob un o'r offer yn cael ei ddefnyddio a'r ystyriaethau diogelwch ar gyfer pob eitem.
(b) Cyfarpar	Dylai dysgwyr ddeall y canlynol: - dylid creu rhestr o'r holl gyfarpar gofynnol cyn gweithio ar dasg adeiladu, er mwyn sicrhau y gellir cwblhau pob cam o'r dasg mor effeithlon ac effeithiol â phosibl - dylai'r rhestr o gyfarpar ymdrin â phob cam o'r dasg adeiladu, gan gynnwys paratoi a gorffennu defnyddiau. - dylai'r dysgwr ddeall sut a pham mae pob darn o gyfarpar yn addas ar gyfer graddfa a natur y dasg, a'r ystyriaethau diogelwch ar gyfer pob eitem.
(c) Cyfarpar diogelu personol	Dylai'r dysgwyr ddeall y canlynol: - mae'n hanfodol bod cyfarpar diogelu personol priodol yn cael ei ddewis a'i ddefnyddio'n gywir wrth ymgymryd â thasg adeiladu - gan ddibynnu ar y dasg dan sylw, a'r defnyddiau a'r prosesau sy'n cael eu defnyddio, mae'n bosibl y bydd angen defnyddio cyfarpar diogelu personol er mwyn: - amddiffyn yr ysgyfaint - amddiffyn y llygaid - amddiffyn y clyw - amddiffyn y dwylo.

Cynnwys	Ymhelaethiad
(ch) Defnyddiau yn seiliedig ar:	
Nodweddion	Dylai dysgwyr ddeall y canlynol: - dewisir defnyddiau yn seiliedig ar eu haddasrwydd i'r pwrpas ar gyfer y dasg adeiladu, gan ystyried gofynion y fanyleb - gall nodweddion perthnasol gynnwys: - priodweddau ffisegol - priodweddau mecanyddol - priodweddau thermol.
Rhinweddau	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol y gall rhinweddau perthnasol defnyddiau fod yn gysylltiedig ag: - amcanion ansawdd y project - cyllideb y project.
Cynaliadwyedd	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r canlynol: - mae cynaliadwyedd yn ystyriaeth sy'n dod yn fwyfwy pwysig wrth ddewis defnyddiau, gan ystyried eu heffaith amgylcheddol o ran: - cynhyrchu - lleoli - cynnal a chadw. - Gall golwg tymor hir hefyd ystyried sut gellir ailgylchu'r defnyddiau.
Cyfyngiadau	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol y gall cyfyngiadau fod yn gysylltiedig â'r canlynol: - cost - argaeledd - nodweddion/priodweddau - rheoliadau.

2.2.4b Cyfrifo'r defnyddiau y mae eu hangen

Yn yr adran hon, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau mewn perthynas â chyfrifo'r defnyddiau y mae eu hangen i gwblhau tasgau adeiladu sy'n bodloni gofynion dylunio o ran:

- cyfaint
- arwynebedd
- perimedr
- amser
- cymhareb.

Cynnwys	Ymhelaethiad
(a) Lefel sain	Dylai dysgwyr ddeall y dylai cyfrifiadau o faint o ddefnyddiau y mae eu hangen i gwblhau tasgau adeiladu fod yn gywir a chaniatáu ar gyfer talgrynnu a gwastraff derbyniol. Dylai dysgwyr wybod sut i gyfrifo cyfeintiau er mwyn mesur faint o ddefnyddiau y mae eu hangen, fel: • nifer yr hydroedd penodol o ddefnyddiau, e.e. pren tafod a rhych, tiwbiau copr • nifer y brics, blociau • cyfaint y concrit.
(b) Arwynebedd	Dylai dysgwyr wybod sut i gyfrifo arwynebedd er mwyn mesur faint o ddefnyddiau y mae eu hangen, fel: • tuniau o baent • bagiau o blastr • rholiau o bapur wal • teils carpedi.
(c) Perimedr	Dylai dysgwyr wybod sut i gyfrifo perimedr er mwyn mesur faint o ddefnyddiau y mae eu hangen, fel: • ffensys • ceblau.
(ch) Amser	Dylai dysgwyr wybod sut i gyfrifo faint o amser y mae ei angen er mwyn cwblhau tasgau, gan ystyried: • nifer y bobl sy'n gweithio ar y dasg • cymhlethdod y dasg • ffactorau sy'n ddibynnol ar amser, er enghraifft amser sychu.
(d) Cymhareb	Dylai dysgwyr wybod sut i gyfrifo cyfaint/cyfran y cydrannau gwahanol y mae eu hangen i gwblhau elfen gyfan, er enghraifft cymysgu: • concrit • plastr • mortar. Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol y gellir cyfleu'r canlyniad ar ffurf canran neu gymhareb.

2.2.5b Ysgrifennu a gosod meini prawf llwyddiant

Yn yr adran hon, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau mewn perthynas ag ysgrifennu a gosod meini prawf llwyddiant priodol i fodloni gofynion briffiau penodol, o ran:

- lefelau goddefiant
- graddfeydd amser
- ansawdd.

Cynnwys	Ymhelaethiad
(a) Lefelau goddefiant	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol y gall goddefiant project olygu'r canlynol: • cynnydd neu leihad o gost neu amser a gynlluniwyd • gwiriadau oddi wrth ansawdd a chwmpas. Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol y gall goddefiant adeiladu olygu amrywiadau a ganiateir nad ydynt yn cael eu hystyried i fod yn ddiffygion, o ran: • dimensiynau • cryfder, sefydlogrwydd, cymysgedd a pherfformiad.
(b) Graddfeydd amser	Dylai dysgwyr ddeall mai un o ffactorau llwyddiant hanfodol project yw bodloni'r terfyn amser. Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r technegau rheoli projectau canlynol a ddyluniwyd i helpu i fodloni terfynau amser: • gosod graddfeydd amser realistig • datblygu cynlluniau a siartiau Gantt • dadansoddi llwybr critigol • dyrannu adnoddau • gosod cerrig milltir • defnyddio cynlluniau wrth gefn.
(c) Ansawdd	Dylai dysgwyr ddeall bod projectau adeiladu yn gofyn am gydbwysedd rhwng cost, amser ac ansawdd. Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol y gellir diffinio ansawdd mewn perthynas â chynhyrchion a defnyddiau drwy: • gyfeirio at safonau • nodi priodoleddau • enwebu cyflenwyr. Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol y gellir diffinio ansawdd, mewn perthynas â chreffftwaith, gan: • gydymffurfio â gofynion gwneuthurwyr • cyfeirio at god ymarfer neu safonau • cymeradwyo samplau • profi ac archwilio.

2.2.6b Paratoi ar gyfer tasgau adeiladu

Yn yr adran hon, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau mewn perthynas â pharatoi defnyddiau a gwneud unrhyw baratodau gofynnol eraill ar gyfer pob tasg a ddewiswyd, gan ystyried:

- priodweddau defnyddiau cyffredin y mae eu hangen er mwyn cwblhau tasgau adeiladu (ar gyfer y ddau faes crefft a ddewiswyd).

Cynnwys	Ymhelaethiad
(a) Priodweddau defnyddiau cyffredin y mae eu hangen er mwyn cwblhau tasgau adeiladu (ar gyfer y ddau faes crefft a ddewiswyd)	Dylai dysgwyr allu paratoi defnyddiau, a allai gynnwys: • tecstilau • pren • brics • plastr • addurniadau • teils • gwaith trydanol • gwaith plymio • gwaith treftadaeth er mwyn cwblhau tasgau adeiladu ar gyfer y ddau faes crefft a ddewiswyd. Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol y bydd natur y gwaith paratoi yn dibynnu ar y meysydd a ddewiswyd a'r tasgau eu hunain. Dylai dysgwyr allu ymgymryd â gwaith paratoi priodol, a allai gynnwys: • dewis defnyddiau • gwirio meintiau • chwilio am ddiffygion • trefnu defnyddiau • mesur • marcio • torri • gosod. Dylai'r dysgwyr ddeall y canlynol: • rhaid gwneud gwaith paratoi gan ystyried: • prif briodweddau'r defnyddiau dan sylw • ffurfiau, mathau a meintiau stoc er mwyn canfod faint o ddefnyddiau neu gydrannau y mae eu hangen • mae'n bosibl y bydd angen cymysgu rhai defnyddiau ymlaen llaw fel eu bod yn barod i'w defnyddio (e.e. plastr).

2.2.7b Cyflawni technegau

Yn yr adran hon, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau mewn perthynas â chyflawni technegau, gan ganolbwyntio ar:

- y prosesau sy'n gysylltiedig â chyflawni tasgau adeiladu syml (yn y ddau faes crefft a ddewiswyd).

Cynnwys	Ymhelaethiad
(a) Y prosesau sy'n gysylltiedig â chyflawni tasgau adeiladu syml (yn y ddau faes crefft a ddewiswyd).	Dylai dysgwyr allu cyflawni tasgau adeiladu syml a all gynnwys defnyddio unrhyw rai o'r meysydd crefft canlynol.³ (Ceir enghraifft o dasg adeiladu syml mewn cromfachau ym mhob achos. Rhoddir y rhain fel enghreifftiau yn unig, er mwyn dangos lefel ddisgwyliedig yr her. Gall canolfannau ddewis tasgau adeiladu yn unol â'u hadnoddau ac anghenion a diddordebau dysgwyr.) - tecstilau (torri ffabrig i faint, gorffennu ymylon, cynnwys dull hongian i wneud llenni) - pren (torri pren i faint i greu silff a bracedi cynnal, a'u huno â'i gilydd) - brics (cymysgu morter a gosod oddeutu 12 bricsen dros dair haen) - plastr (paratoi plastr a rhan oddeutu 1m² o wal, rhoi'r plastr ar y wal, ei sgimio a'i lyfnu) - addurniadau (paratoi'r glud a'r wal, gosod tri darn o bapur wal patrymog) - teils (paratoi'r glud a'r wal neu'r llawr, gosod oddeutu 12 o deils a growt) - gwaith trydanol (rhedeg cebl rhwng cyflenwad dychmygol a soced wal; switsh golau a daliwr lamp) - gwaith plymio (torri ac uno pedwar darn o diwb copr gan ddefnyddio detholiad o ffitiadau pen) - gwaith treftadaeth (gofannu dur er mwyn creu braced ar gyfer hongian basged flodau) Bydd y prosesau a ddefnyddir yn dibynnu ar y meysydd a ddewiswyd a'r tasgau eu hunain. Yn nodweddiadol, bydd hyn yn golygu bod y dysgwr yn: - mesur - marcio - torri - uno - siapio - cydosod - cymysgu - gorffennu - rhoi triniaethau arwyneb.

³ sy'n berthnasol i'r ddau faes crefft a ddewiswyd.

2.2.8b Symud defnyddiau a'u gwaredu

Yn yr adran hon, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau mewn perthynas â symud defnyddiau a ddefnyddir i gyflawni dwy o'r technegau uchod a'u gwaredu yn ddiogel, gan ganolbwyntio ar:

- dulliau diogel o waredu neu ailgylchu defnyddiau, sy'n gyfrifol o ran yr amgylchedd.

Cynnwys	Ymhelaethiad
(a) Dulliau diogel o waredu neu ailgylchu defnyddiau, sy'n gyfrifol o ran yr amgylchedd.	Dylai dysgwyr ddeall y canlynol: - dylai'r gwaith o baratoi ar gyfer adeiladu, a'r dasg adeiladu ei hun, geisio lleihau gwastraff - lle y bo'n bosibl, dylid aildddefnyddio neu ailgylchu gwastraff. - dylid trin, storio a gwaredu gwastraff na ellir ei aildddefnyddio mewn modd priodol, gan gydymffurfio ag arferion da a rheoliadau perthnasol - lle y bo'n briodol, dylid ystyried oes silff cyn ac ar ôl defnyddio cynhyrchion.

2.2.9b Arferion gwaith sy'n hybu iechyd a diogelwch

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau mewn perthynas ag arferion gwaith sy'n hybu eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain ac eraill, gan ddatblygu ymwybyddiaeth o arferion iechyd a diogelwch sy'n gysylltiedig â'r ddau faes crefft a ddewiswyd, gan gynnwys:

- sicrhau glendid a diogelwch ardaloedd gwaith
- cyfarpar diogelu personol cywir.

Cynnwys	Ymhelaethiad
(a) Sicrhau glendid a diogelwch ardaloedd gwaith	Dylai dysgwyr ddeall y canlynol: - pwysigrwydd sicrhau bod ardaloedd gwaith yn lân ac yn ddiogel - dylai ardaloedd gwaith fod yn lân ac yn rhydd o unrhyw rwystrau neu beryglon baglu - dylai'r ardal fod o faint digonol ar gyfer y dasg er mwyn gallu cwblhau pob gweithgaredd yn ddiogel - dylai fod yn hawdd cael gafael ar gyfleusterau cymorth.
(b) Cyfarpar diogelu personol cywir	Dylai'r dysgwr ddeall y canlynol: - dylid dewis y cyfarpar diogelu personol cywir fel rhan o'r broses gynllunio a glynu wrth hynny cyn dechrau ac yn ystod tasgau adeiladu - dylid archwilio cyfarpar diogelu personol am ddifrod a sicrhau ei fod yn addas i'r pwrpas. - efallai fydd angen defnyddio cyfarpar diogelu personol er mwyn: - amddiffyn yr ysgyfaint – mygydau - amddiffyn y llygaid – goglau, misyrnau - amddiffyn y clyw – plygiau clustiau, myffiau clustiau - amddiffyn y dwylo – menig, eli rhwystrol - amddiffyn y traed – esgidiau â blaen dur - amddiffyn y pen – hetiau caled.

2.2.10b Gwerthuso tasgau adeiladu

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau mewn perthynas â gwerthuso ansawdd tasgau adeiladu wedi'u cwblhau, gan gynnwys sut gellir gwerthuso canlyniadau yn erbyn:

- gofynion y briff
- meini prawf llwyddiant a osodwyd yn bersonol
- anghenion defnyddwyr terfynol, gan gynnwys eu diogelwch.

Cynnwys	Ymhelaethiad
(a) Gofynion y briff	Dylai dysgwyr allu gwerthuso tasg adeiladu orffenedig yn erbyn gofynion y project gan ystyried: • gwelliannau pellach posibl • gwelliannau pellach posibl i'r cyflwyniad • rhannau o'r project a oedd yn heriol.
(b) Meini prawf llwyddiant a osodwyd yn bersonol	Dylai dysgwyr allu gwerthuso tasg adeiladu orffenedig yn erbyn meini prawf llwyddiant a osodwyd yn bersonol gan ystyried: • a oedd pob agwedd ar y dasg o fewn y lefelau goddefiant • a gwblhawyd y dasg o fewn y raddfa amser a bennwyd • a gwblhawyd y dasg i'r safonau gofynnol o ran ansawdd.
(c) Anghenion defnyddwyr terfynol, gan gynnwys eu diogelwch	Dylai dysgwyr allu gwerthuso tasg adeiladu orffenedig yn erbyn anghenion defnyddwyr terfynol gan ystyried: • eu hiechyd a'u diogelwch • pwrpas arfaethedig canlyniad y dasg ddylunio.

2.3 Uned 3

Archwilio'r amgylchedd adeiledig

Asesiad di-arholiad: tua 15 awr
25% o'r cymhwyster
50 marc

Trosolwg o'r uned

Yn yr uned hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

- nodi a disgrifio'r ffactorau sy'n effeithio ar bob cam o gylchred oes yr adeilad
- gwerthuso a dadansoddi pob cam o gylchred oes yr adeilad
- ymchwilio i'r camau a'r prosesau sy'n gysylltiedig â dylunio, adeiladu, prisio a defnyddio eu hamgylchedd adeiledig
- cyflwyno eu canfyddiadau mewn ffyrdd priodol
- cymharu a chyferbynnu'r prosesau sy'n gysylltiedig â dylunio, adeiladu, prisio a defnyddio adeiladau o gyfnodau gwahanol.

Mae'r asesiad di-arholiad hwn yn cynnwys astudiaeth achos a osodir gan CBAC, a ddangosir yn Atodiad B.

Lle y bo'n bosibl, dylai'r astudiaeth achos fod yn seiliedig ar amgylchedd lleol dysgwyr yng Nghymru. Os nad yw hyn yn bosibl, pan gyflwynir gwaith ymgeiswyr i'w gymedroli, mae'n rhaid i ganolfannau esbonio pam nad yw dysgwyr wedi ymchwilio i adeiladau neu adeileddau yn eu hamgylchedd lleol.

Gellir cyflwyno'r astudiaeth achos mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys:

- dogfen maint A4 neu A3 wedi'i theipio ar feddalwedd prosesu geiriau
- cyflwyniad a grëwyd ar PowerPoint neu raglen arall
- blog
- ffeithlun

neu gyfuniad o'r fformatau hyn.

Fel rhan o'r astudiaeth achos, gall dysgwyr gynnwys testun byr ac estynedig, delweddau digidol/ffotograffau a/neu ddelweddau/diagramau wedi'u hanodi er mwyn cyd-fynd â'r cyd-destun a'u diddordebau. Er bod y dull cyflwyno'n hyblyg, dylai athrawon sicrhau bod gan waith dysgwyr y potensial i fynd i'r afael â'r holl feini prawf asesu perthnasol.

Dylai dysgwyr gael y cyfle i ddatblygu eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth yn y saith maes cynnwys a nodir ar dudalennau 42 i 49.

Meysydd cynnwys

2.3.1	Camau cynllunio a dylunio adeiladau ac adeileddau
2.3.2	Prosesau adeiladu
2.3.3	Llesiant cymunedau
2.3.4	Gwerthusiadau ôl-ddeiliadaeth
2.3.5	Cynnal a chadw ac atgyweirio adeiladau
2.3.6	Newid defnydd
2.3.7	Newid arferion

2.3.1 Camau cynllunio a dylunio adeiladau ac adeileddau

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin ymwybyddiaeth o gamau cynllunio a dylunio adeiladau ac adeileddau, gan ganolbwyntio ar Gamau 0, 1, 2, 3 a 4 RIBA:

- diffiniad strategol
- gwaith paratoi a briff
- gwaith dylunio cysyniadol
- gwaith dylunio datblygedig
- gwaith dylunio technegol

a'r ffyrdd y mae eu hamgylchedd adeiledig wedi'i gynllunio a'i ddylunio i ddiwallu anghenion penodol.

Dylai dysgwyr amlinellu nodweddion perthnasol o bob un o Gamau RIBA yn eu hastudiaeth achos ar gyfer Uned 3.

Cynnwys	Ymhelaethiad
(a) Camau 0, 1, 2, 3 a 4 Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain (RIBA):	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r strwythur a ddefnyddir yng Nghynllun Gwaith RIBA 2013: • amcan craidd • caffael • rhaglen • cynllunio (trefol) • tasgau ategol allweddol a awgrymir • pwyntiau gwirio cynaliadwyedd • cyfnewidfeydd gwybodaeth (wrth gwblhau cam) • Cyfnewidfeydd Gwybodaeth Llywodraeth y DU https://www.ribaplanofwork.com/PlanOfWork.aspx
(b) Diffiniad strategol	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol bod project, ar y cam diffiniad strategol, yn cael ei arfarnu a'i ddiffinio er mwyn creu briff.
(c) Gwaith paratoi a briff	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol bod y cam gwaith paratoi a briff yn cynnwys datblygu: • amcanion a chanlyniadau allweddol • cyllideb gyffredinol.
(ch) Gwaith dylunio cysyniadol	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol bod y cam gwaith dylunio cysyniadol yn cynnwys amlinellu cynigion ar gyfer: • gwaith dylunio adeileddol • gwasanaethau adeiladu • manylebau • costau.
(d) Gwaith dylunio datblygedig	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol bod y cam dylunio datblygedig yn cynnwys cynigion datblygedig ar gyfer: • gwaith dylunio adeileddol • gwasanaethau adeiladu • manylebau • costau.
(dd) Gwaith dylunio technegol	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol bod manylion technegol ar gyfer y pensaer a'r is-gontractwyr yn cael eu paratoi ar y cam dylunio technegol.

Cynnwys	Ymhelaethiad
(e) a'r ffyrdd y mae eu hamgylchedd adeiledig wedi'i gynllunio a'i ddylunio i ddiwallu anghenion penodol.	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o sut mae eu hamgylchedd adeiledig eu hunain yn diwallu anghenion defnyddwyr, gan ystyried ffactorau fel: • effeithiau amgylcheddol • trafnidiaeth • lleoliad siopau a chyfleusterau • defnyddwyr anabl fel sy'n berthnasol i amgylchedd adeiledig y dysgwyr.

2.3.2 Prosesau adeiladu

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o brosesau adeiladu, gan ganolbwyntio ar Gam 5 RIBA:

- adeiladu
- a'r ffyrdd y mae eu hamgylchedd adeiledig wedi'i adeiladu i ddiwallu anghenion penodol.

Cynnwys	Ymhelaethiad
(a) Adeiladu	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol bod y cam adeiladu yn cynnwys gweithgynhyrchu oddi ar y safle ac adeiladu ar y safle.
(b) a'r ffyrdd y mae eu hamgylchedd adeiledig wedi'i adeiladu i ddiwallu anghenion penodol.	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o sut mae eu hamgylchedd adeiledig eu hunain wedi'i adeiladu i ddiwallu anghenion sy'n berthnasol iddynt.

2.3.3 Llesiant cymunedau

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o lesiant cymunedau, gan ganolbwyntio ar:

- effaith eu hamgylchedd adeiledig ar lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol cymunedau.

Cynnwys	Ymhelaethiad
(a) Effaith eu hamgylchedd adeiledig ar lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol cymunedau.	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol bod rhaid i'r amgylchedd adeiledig ddiwallu anghenion y gymuned neu mae'n debygol y bydd yn dirywio oherwydd: • bydd cyfleusterau'n cael eu defnyddio'n llai aml • bydd siopau'n cau • bydd tai yn mynd yn wag • bydd gwerth yn lleihau – gwerth ariannol a chynhenid • mae'n bosibl na fydd y gymuned yn ymfalchïo llawer yn yr amgylchedd ac yn dechrau ei gamddefnyddio.

Cynnwys	Ymhelaethiad
(a) Effaith eu hamgylchedd adeiledig ar lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol cymunedau. (parhad)	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol y gall amgylchedd adeiledig sy'n diwallu anghenion y gymuned yn llwyddiannus gael amrywiaeth o effeithiau cadarnhaol: • effeithiau cymdeithasol: • bydd y gymuned yn ymfalchïo yn yr amgylchedd • amgylchedd deniadol i fyw a gweithio ynddo • gall wella cydlyniant cymunedol • effeithiau economaidd: • annog buddsoddiad o'r tu allan i'r gymuned • bydd aelodau o'r gymuned yn treulio eu hamser ac yn gwario eu harian yn yr amgylchedd lleol yn hytrach na lleoedd eraill • gall gael dylanwad cadarnhaol ar werth eiddo oherwydd bydd busnesau a'r rhai sy'n chwilio am gartrefi yn fwy awyddus i symud i'r ardal • effeithiau ar lesiant diwylliannol: • gall yr amgylchedd adeiledig helpu i roi ymdeimlad o berthyn i bobl yn y gymuned leol • gall cymryd rhan mewn gweithgareddau yn yr amgylchedd adeiledig helpu pobl i gymdeithasu, dysgu sgiliau newydd a gwella eu llesiant corfforol a meddyliol • gall yr amgylchedd adeiledig annog pobl i ymddiddori yn eu hanes a'u credoau a'u gwerthfawrogi Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol bod yr amgylchedd adeiledig yn effeithio'n sylweddol ar yr amgylchedd naturiol, a bod y ffordd mae'r amgylchedd adeiledig yn cael ei ddylunio, ei ddefnyddio a'i gynnal a'i gadw yn effeithio: • y defnydd o adnoddau ac egni • amrywiaeth o fathau o lygredd a gynhyrchir.

2.3.4 Gwerthusiadau ôl-ddeiliadaeth

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r broses o werthuso effaith adeilad neu ased ar:

- gostau rhedeg
- boddhad staff a chleientiaid
- perfformiad
- iechyd a diogelwch
- cysur
- y ffyrdd y gellir defnyddio gwerthusiadau ôl-ddeiliadaeth er mwyn cywiro camgymeriadau, llywio penderfyniadau a darparu meincnodau ar gyfer gwerthusiadau pellach.

Cynnwys	Ymhelaethiad
(a) Costau rhedeg	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol bod gwerthusiadau ôl-ddeiliadaeth yn cynnwys ystyried costau fel: • cynnal a chadw: • addurniadau • adeiladwaith a gwasanaethau'r adeilad. • gweithredu: • glanhau • cyfleustodau (dŵr ac egni).
(b) Boddhad staff a chleientiaid	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol: • bod gwerthusiadau ôl-ddeiliadaeth yn cynnwys ystyried swyddogaeth yr adeilad neu'r ased o safbwynt y cleient a'r rhai sy'n byw neu'n gweithio ynddo • gall arolygon boddhad i'r cleientiaid/deiliaid gynnwys cwestiynau am: • amodau gofodol (faint o le/cynllun) • golau (naturiol ac artiffisial) • acwsteg/sŵn • ansawdd aer • tymheredd.
(c) Perfformiad	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol bod gwerthusiadau ôl-ddeiliadaeth yn cynnwys ystyried perfformiad yr adeilad neu'r ased, o ran: • addasrwydd i'r pwrpas • effeithlonrwydd • perfformiad egni.
(ch) Iechyd a diogelwch	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol bod gwerthusiadau ôl-ddeiliadaeth yn cynnwys ystyried materion iechyd a diogelwch sy'n ymwneud â deiliadaeth/defnydd yr adeilad neu'r ased, fel: • darparu nodweddion/cyfarpar diogelwch • swyddogaeth yr adeilad/ased • risgiau sy'n gysylltiedig â defnydd yr adeilad/ased • cydymffurfiaeth â deddfwriaeth berthnasol

Cynnwys	Ymhelaethiad
(d) Cysur	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol bod gwerthusiadau ôl-ddeiliadaeth yn cynnwys ystyried cysur, gan ystyried y canlynol: - ffactorau personol deiliaid, fel: - oedran - rhywedd - gweithgareddau sy'n cael eu gwneud - iechyd a llesiant - cysur thermol - ansawdd aer - cysur gweledol - ergonomeg.
(dd) a'r ffyrdd y gellir defnyddio gwerthusiadau ôl-ddeiliadaeth er mwyn cywiro camgymeriadau, llywio penderfyniadau a darparu meincnodau ar gyfer gwerthusiadau pellach.	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r canlynol: - os nad yw amgylchedd adeiledig yn perfformio yn unol â'r cynllun, gall hyn effeithio ar foddhad y cleient/deiliad, cynhyrchedd, effeithlonrwydd, iechyd a diogelwch a chysur - mae gwerthusiadau ôl-ddeiliadaeth yn cynnig ffordd bwysig o gasglu adborth am berfformiad yr amgylchedd adeiledig wrth iddo gael ei ddefnyddio drwy: - nodi problemau uniongyrchol y mae angen eu datrys - nodi unrhyw fylchau wrth gyfathrebu sy'n effeithio ar weithrediad yr adeilad - darparu gwersi y gellir eu dysgu er mwyn gwella proses ddylunio ac adeiladu projectau yn y dyfodol - gweithredu fel cymorth i feincnodi er mwyn cymharu projectau dros amser.

2.3.5 Cynnal a chadw ac atgyweirio adeiladau

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

- y prosesau sy'n gysylltiedig â: nodi a chyflawni gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio i adeiladau
- effaith cyflawni'r atgyweiriadau hyn ar ddefnyddwyr.

Cynnwys	Ymhelaethiad
(a) Y prosesau sy'n gysylltiedig â nodi a chyflawni gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio i adeiladau	Dylai'r dysgwyr ddeall y canlynol: • mae gwneud gwaith cynnal a chadw priodol yn sicrhau nad yw adeiladau'n dirywio'n weledol a'u bod yn parhau i weithredu'n effeithlon • bydd gwaith cynnal a chadw fwyaf effeithiol pan mae'n cael ei drefnu drwy raglen gylchol • gall gwaith cynnal a chadw fod ar ffurf: • gwaith wedi'i gynllunio • gwaith ataliol • gwaith cywirol • gall gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio gynnwys: • peintio • tirlunio a garddio • cynnal a chadw gwasanaethau adeiladu • atgyweirio ffenestri a drysau • clirio ac atgyweirio cwteri • gwaith saer • glanhau ac atgyweirio carpedi a lloriau.
(b) Effaith cyflawni'r atgyweiriadau hyn ar ddefnyddwyr.	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol bod ymgymryd â gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio yn effeithio ar ddefnyddwyr o ran: • cost • anghyfleustra • cynhyrchedd • iechyd a llesiant.

2.3.6 Newid defnydd

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

- y prosesau sy'n gysylltiedig ag adnewyddu, ailgylchu ac ailddefnyddio stoc adeiladau ac asedau yn eu hamgylchedd lleol
- effaith y gweithredoedd hyn ar unigolion a/neu gymunedau
- y gofyniad i sicrhau nad yw prosesau newid defnydd yn effeithio'n negyddol ar nodweddion diogelwch presennol.

Cynnwys	Ymhelaethiad
(a) Y prosesau sy'n gysylltiedig ag adnewyddu, ailgylchu ac ailddefnyddio stoc adeiladau ac asedau yn eu hamgylchedd lleol.	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r canlynol mewn perthynas ag adnewyddu, ailgylchu ac ailddefnyddio stoc adeiladau ac asedau: • mae adnewyddu yn cynnwys: • asesu'r cyflwr presennol • atal dirywiad pellach • sicrhau sefydlogrwydd adeileddol • dymchwel • gosodiad cyntaf • plastro • ail osodiad • addurno • chwilio am fân broblemau • mae ailgylchu yn cynnwys adfer defnyddiau y gellir eu hailgylchu, gan gynnwys: • metelau • pren • llystyfiant ac uwchbridd • mae ailddefnyddio yn cynnwys: • ailddefnyddio adeilad i bwrpas gwahanol, er enghraifft trawsnewid adeilad diwydiannol hanesyddol yn llety preswyl • adfer defnyddiau a chydannau y gellir eu haildefnyddio, gan gynnwys: • peiriannau • gosodiadau plymio • cypyrddau a grisiau • drysau a ffenestri • pren • brics • gosodiadau trydanol • teils to.
(b) Effaith y gweithredoedd hyn ar unigolion a/neu gymunedau	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o effaith bosibl adnewyddu, ailgylchu ac ailddefnyddio ar unigolion a/neu gymunedau: • gall adnewyddu ac ailddefnyddio adeiladau helpu i gadw cymeriad/treftadaeth amgylchedd adeileddig. • mae ailgylchu defnyddiau yn lleihau: gwastraff a'r galw am adnoddau newydd. • Mae ailddefnyddio defnyddiau a chydannau adeiladu yn: • lleihau gwastraff • lleihau'r galw am adnoddau newydd • sicrhau bod defnyddiau a chydannau adeiladu mwy fforddiadwy ar gael i'r gymuned.

Cynnwys	Ymhelaethiad
(c) Y gofyniad i sicrhau nad yw prosesau newid defnydd yn effeithio'n negyddol ar nodweddion diogelwch presennol	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r canlynol: - y gofyniad am ganiatâd cynllunio/cydymffurfiaeth â rheoliadau adeiladu er mwyn newid defnydd adeilad yn sylweddol. - pwysigrwydd sicrhau nad yw newid defnydd yr adeilad yn effeithio'n negyddol ar: - sefydlogrwydd yr adeiledd, e.e. drwy ddymchwel wal fewnol - diogelwch deiliaid, e.e. diogelwch tân a threfniadau gwacáu mewn tŷ preswyl sydd wedi'i drawsnewid yn llety amlbreswyliaeth/fflatiau hunangynhaliol.

2.3.7 Newid arferion

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r newidiadau mewn prosesau dylunio ac adeiladu yn eu hamgylchedd adeiledig, gan gynnwys:

- adeiladau cyfoes
- adeiladau cyn 1919

Cynnwys	Ymhelaethiad
(a) Adeiladau cyfoes	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r canlynol: - prosesau dylunio ac adeiladu ar gyfer adeiladau cyfoes, gan ystyried y defnyddiau a ddefnyddir a'u priodweddau, gan gynnwys: - concrit - dur - gwydr - pren - defnyddiau inswleiddio thermol - gall adeiladau cyfoes gynnwys defnyddiau, adeiledd a phrosesau treftadaeth os bydd y cleient yn gofyn am hynny.
(b) Adeiladau cyn 1919	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r broses o ddylunio ac adeiladu adeiladau treftadaeth, gan ystyried y defnyddiau traddodiadol a ddefnyddir a'u priodweddau, gan gynnwys: - pren - bricks a cherrig - llechi, teils a gwellt - plwm - morter calch a phlastr calch - gwaith metel pensaernïol (castio) - gwaith metel gof (haearn gyr).

3 ASESU

3.1 Amcanion asesu a phwysoli

Mae amcanion asesu'r fanyleb hon wedi'u nodi isod. Rhaid i ddysgwyr:

AA1

Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r rolau, y sectorau, y cysyniadau a'r prosesau o fewn yr amgylchedd adeiledig gan ddefnyddio terminoleg berthnasol.

AA2

Cymhwyso sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth o'r amgylchedd adeiledig mewn amrywiaeth o gyd-destunau.

AA3

Dadansoddi a gwerthuso tystiolaeth, llunio barn wedi'i rhesymu a chyflwyno casgliadau mewn perthynas â'r canlynol:

- cynhyrchion/canlyniadau y dysgwyr eu hunain
- yr amgylchedd adeiledig a'i effaith ar bobl, yr economi a'r amgylchedd naturiol

Mae'r tabl isod yn dangos pwysoli pob amcan asesu ar gyfer pob uned ac am y cymhwyster yn gyffredinol.

	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm
Uned 1	25%	5%	5%	35%
Uned 2	5%	30%	5%	40%
Uned 3	10%	5%	10%	25%
Pwysoliad cyffredinol	40%	40%	20%	100%

3.2 Trefniadau ar gyfer asesiad di-arholiad

Mae Uned 2 ac Uned 3 yn asesiadau di-arholiad sy'n cael eu hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'u cymedroli'n allanol gan CBAC. Rhaid cynnal yr asesiad di-arholiad yn unol â'r ddogfen *Instructions for Conducting Examinations (Cyfarwyddiadau ar Gynnal Arholiadau* – yn Gymraeg ar wefan CBAC) gan y CGC, sydd ar gael yn www.jcq.org.uk.

Tasgau

Cyflwynir y tasgau i'w hasesu yn Uned 2 ac Uned 3 yn Atodiad B y fanyleb hon. Byddant yn aros yr un fath tra bod y fanyleb hon ar waith, fel bod lle i ddysgwyr ganolbwyntio ar faes sydd o ddiddordeb arbennig a/neu'r amgylchedd adeiledig sy'n lleol iddynt. Bydd CBAC yn cyhoeddi cyd-destunau awgrymedig ar gyfer Uned 2 Llwybr A ac Uned 2 Llwybr B yn Atodiad B y fanyleb, ac yn adnewyddu'r rhain bob dwy gyfres arholiadau. Bydd gan ddysgwyr yr opsiwn o ddefnyddio'r cyd-destunau hyn, eu haddasu nhw, neu ddyfeisio cyd-destun eu hunain.

Paratoi ar gyfer Asesiad Di-arholiad

Gall y tasgau asesu di-arholiad gael eu cwblhau a'u hasesu ar unrhyw adeg addas yn ystod y cwrs. Fodd bynnag, bydd angen i ganolfannau sicrhau eu bod wedi cyflwyno'r cynnwys angenrheidiol i ymgeiswyr allu ennill marciau a roddir am bob agwedd ar yr asesiad di-arholiad perthnasol.

Cyn dechrau'r cwrs, mae'r athro'n gyfrifol am roi gwybod i ymgeiswyr am reoliadau CBAC ynglŷn â chamymddwyn. Rhaid i ymgeiswyr beidio ag ymddwyn yn annheg mewn unrhyw ffordd wrth baratoi gwaith ar gyfer TGAU Amgylchedd Adeiledig.

Rhaid i ymgeiswyr ddeall bod yn rhaid cyfeirio at wybodaeth o ffynonellau cyhoeddedig. Dylent gael arweiniad ar nodi cyfeiriadau a bod yn ymwybodol na ddylent gyflawni llên-ladrad. Dylent wybod bod copïo unrhyw ddeunydd yn uniongyrchol o lyfrau neu ffynonellau eraill a'i gyflwyno heb gydnabyddiaeth yn cael ei ystyried yn dwyll bwriadol. Rhaid i ganolfannau roi gwybod i CBAC am unrhyw amheuan o gamymddwyn sydd ganddyn nhw.

Mae'n bwysig bod gwaith asesu di-arholiad yn cael ei fonitro gan ganolfannau er mwyn sicrhau mai gwaith yr ymgeiswyr eu hunain ydyw. Mae'n ofynnol i bob dysgwr lofnodi mai ei waith ei hun a gyflwynwyd ganddo ac mae'n ofynnol i athrawon gadarnhau mai gwaith yr ymgeisydd dan sylw yn unig yw'r gwaith a aseswyd a'i fod wedi'i gyflawni dan yr amodau gofynnol.

Ni ddylai ymgeiswyr gydweithio ar y naill dasg asesu di-arholiad na'r llall.

Yr amser sydd ar gael ar gyfer Asesiad Di-arholiad

Dylai dysgwyr dreulio tua 25 awr ar eu tasg asesu di-arholiad ar gyfer Uned 2 a thua 15 awr ar eu tasg asesu di-arholiad ar gyfer Uned 3. Mae'r amseroedd hyn yn cyfeirio at waith wedi'i gwblhau dan oruchwyliaeth uniongyrchol yn yr ystafell ddosbarth.

Gellir gwneud gwaith ymchwiliol y tu allan i'r amser dan oruchwyliaeth ac ni ddylid ei gofnodi i gyfrif tuag at yr amseroedd a nodir uchod. Fodd bynnag, rhaid i'r holl waith heblaw am y gwaith ymchwiliol gael ei gwblhau o dan oruchwyliaeth uniongyrchol ac mae'n cyfrif tuag at yr amseroedd a nodir uchod.

Nid oes gofyniad nac argymhelliad ar gyfer nifer y geiriau na'r tudalennau mewn tasgau Asesu Di-arholiad.

Goruchwyllo a Monitro Asesiad Di-arholiad

- Unwaith y bydd yr asesiad di-arholiad wedi dechrau, dylai gwaith ymgeiswyr aros yn y ganolfan bob amser, a chael ei storio'n ddiogel rhwng sesiynau ar yr amserlen er mwyn lleihau'r risg o gamymddwyn.
- **Nid** oes rhaid goruchwyllo'r ymgeiswyr yn uniongyrchol drwy'r amser.
- Yn ystod eu hasesiad di-arholiad, ni ragnodir y defnydd o adnoddau, gan gynnwys y rhyngwrwyd, yn llym a gall ymgeiswyr ddefnyddio'r fath adnoddau. Fodd bynnag, **rhaid** i'r ganolfan sicrhau:
 - bod digon o oruchwyliaeth i bob ymgeisydd er mwyn i'r gwaith allu cael ei ddilysu
 - mai gwaith unigol yr ymgeisydd ei hun yw'r gwaith a gyflwynir i'w asesu.
- Gellir cwblhau gwaith ymchwiliol y tu allan i'r ganolfan heb oruchwyliaeth uniongyrchol, ar yr amod bod y ganolfan yn hyderus mai gwaith yr ymgeisydd ei hun yw'r gwaith a gynhyrchwyd. Y tu allan i'r ganolfan, gall ymgeiswyr:
 - gael mynediad anghyfyngedig at adnoddau electronig ac argraffedig
 - defnyddio'r rhyngwrwyd heb gyfyngiadau.
- Gall athrawon gynnig arweiniad a chefnogaeth i ddysgwyr er mwyn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth glir o ofynion y tasgau asesu di-arholiad, yr asesiad a'r meini prawf marcio cysylltiedig.
- Gall athrawon gynghori ymgeiswyr ar ba mor addas yw'r cyd-destun sydd wedi'i ddewis ar gyfer eu gwaith asesu di-arholiad, o ran y cyfle i'r gwaith terfynol fodloni'r holl ofynion asesu perthnasol. Mae hyn yn arbennig o bwysig os yw dysgwyr yn dewis dyfeisio eu cyd-destun eu hunain ar gyfer asesiad di-arholiad Uned 2. Ar ôl cychwyn ar y gwaith, rhaid cyfyngu unrhyw adborth i gynnig cyngor cyffredinol am yr hyn i'w wella. Ni chaiff athrawon roi arweiniad penodol ar sut i wneud y gwelliannau hyn.
- Mae 'cyngor cyffredinol' yng nghyd-destun asesiad di-arholiad TGAU Amgylchedd Adeiledig yn cynnwys:
 - sicrhau bod yr ymgeiswyr yn deall gofynion y dasg berthnasol, gan gynnwys y canlyniad gofynnol a'r amser sydd ar gael
 - sicrhau bod gan lwybrau'r ymgeiswyr drwy'r asesiad di-arholiad y potensial i fodloni gofynion y meini prawf marcio a'u bod yn ddigon anodd i ennill y marciau o'r bandiau uchaf
 - rhoi arweiniad ar y defnydd diogel o offer a defnyddiau, a'r galedwedd a'r feddalwedd TGCh sydd ar gael i ymgeiswyr sy'n cyflawni gweithgareddau asesu di-arholiad.
- Yng nghyd-destun 'cyngor cyffredinol' **ni chaiff** athrawon:
 - roi cyngor manwl i ymgeisydd na chymryd yr awenau drwy'r broses asesu di-arholiad
 - pennu cyd-destun y gweithgaredd asesu di-arholiad, rhaid mai penderfyniad yr ymgeisydd ei hun ydyw
 - cywiro nac addasu gwaith ymgeisydd
 - rhoi cyfarwyddyd penodol i ymgeisydd er mwyn iddo ennill marciau uwch
 - llunio unrhyw fath o ffrâm ysgrifennu i'w defnyddio mewn gweithgareddau asesu di-arholiad.
- Caniateir i ymgeiswyr ddefnyddio adnoddau a all gynnwys gwybodaeth sy'n cael ei chasglu y tu allan i'r ysgol/coleg, er enghraifft fel rhan o'u gweithgareddau ymchwiliol neu ymchwil.

- Pan fydd ymgeiswyr yn gweithio ar eu hasesiad di-arholiad, rhaid i athrawon fonitro cynnydd yn ddigonol er mwyn gallu dilysu'r gwaith fel gwaith yr ymgeisydd ei hun (gweler hefyd y wybodaeth am ddilysu isod).
- Ar ôl cwblhau'r dasg a'i hasesu'n derfynol, ni ellir gwneud unrhyw newidiadau pellach i'r gwaith.

Dylai'r athro gofnodi'r amser a dreuliwyd yn gweithio ar y dasg asesu di-arholiad fel log. Mae'n bosibl y bydd CBAC yn gofyn am hwn yn ogystal â'r gwaith a gyflwynwyd i'w gymedroli. Dylai'r log gael ei fonitro gan y ganolfan er mwyn sicrhau bod ymgeiswyr yn treulio tua 25 awr a 15 awr ar eu tasgau asesu di-arholiad perthnasol ar gyfer Uned 2 ac Uned 3 yn ôl eu trefn.

Dilysu

Mae'n bwysig bod gwaith asesu di-arholiad yn cael ei fonitro'n drwyadl gan ganolfannau er mwyn sicrhau mai gwaith yr ymgeiswyr eu hunain ydyw. Dylai canolfannau fonitro gwaith ymgeiswyr drwy:

- gadw cofnod gofalus o gynnydd yn ystod y sesiynau a amserlennwyd
- ystyried yn ofalus a yw'r dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd yn nodweddiadol o allu/cyrhaeddiad yr ymgeiswyr
- cadw gwaith yn ddiogel yn y ganolfan unwaith y cyflwynir y dystiolaeth
- sicrhau nad yw gwaith yn cael ei ddychwelyd i'r ymgeisydd i wneud newidiadau.

Cyfeiriadau

Mae'n rhaid cydnabod cyfeiriadau at ffynonellau o wybodaeth mewn tasgau asesu di-arholiad. Gellir gwneud hyn drwy ddefnyddio llyfryddiaeth atodol drwy ddefnyddio system gyfeirio fewn-destunol gonfensiynol, neu drwy ddefnyddio troednodiadau.

Y dystiolaeth i'w chyflwyno

Rhaid i ganolfannau sicrhau CBAC mai gwaith yr ymgeiswyr dan sylw yw'r dystiolaeth a gyflwynir. Heblaw am weithgareddau ymchwiliol, rhaid i'r holl waith gael ei gyflawni dan oruchwyliaeth uniongyrchol.

Rhaid i'r athro/athrawes sy'n gyfrifol am oruchwyllo gwaith yr ymgeisydd gwblhau datganiad ei fod/bod yn fodlon mai tystiolaeth yr ymgeisydd dan sylw yw'r hyn a gyflwynwyd.

Uned 2 Llwybr A/Llwybr B

Tasg wedi'i gwblhau gan yr ymgeisydd, taflen farcio wedi'i chwblhau gan yr aseswr, datganiadau dilysu wedi'u llofnodi (gan yr athro a'r ymgeisydd) wedi'u cyflwyno i'r cymedrolwr.

Uned 3

Astudiaeth achos wedi'i chwblhau gan yr ymgeisydd, taflen farcio wedi'i chwblhau gan yr aseswr, datganiadau dilysu wedi'u llofnodi (gan yr athro a'r ymgeisydd) wedi'u cyflwyno i'r cymedrolwr.

Lle y bo'n briodol, esboniad pam mae dysgwyr wedi ymchwilio i adeiladau neu adeileddau nad ydynt yn eu hamgylchedd lleol.

Rhaid llenwi taflenni clawr asesiad di-arholiad ar gyfer pob ymgeisydd, nid dim ond y rhai a ddewisir i'w cymedroli. Gellir llwytho'r ffurflenni i lawr o wefan ddiogel CBAC.

Diogelwch gwaith ymgeiswyr

Rhaid cadw gwaith ymgeiswyr yn ddiogel rhwng sesiynau asesuadau di-arholiad wedi'u hamserlennu, a than ar ôl y dyddiad cau ar gyfer adolygu'r cymedroli neu tan y bydd adolygiad o'r cymedroli, apêl neu ymchwiliad i gamymddwyn wedi ei gwblhau, pa un bynnag sydd hwyraf.

Meini prawf asesu ar gyfer Uned 2 Llwybr A, Uned 2 Llwybr B ac Uned 3

Mae'r meini prawf asesu ar gyfer Uned 2 Llwybr A, Uned 2 Llwybr B ac Uned 3 wedi'u crynhoi yn y tablau isod ac fe'u dangosir yn fanwl yn Atodiad A.

Uned 2 Llwybr A

Meini Prawf Asesu		Amcan asesu	Marciau
(a)	nodi a chyfrifo gwybodaeth	AA2	10
(b)	ysgrifennu a gosod meini prawf llwyddiant	AA1	10
(c)	creu lluniadau a golygon	AA2	20
(ch)	lluniadu cynlluniau dau ddimensiwn a rhith-fodelau a chynlluniau tri dimensiwn	AA2	20
(d)	defnyddio iaith ddrafftio	AA2	10
(dd)	gwerthuso'r dasg ddylunio	AA3	10
			Cyfanswm 80

Uned 2 Llwybr B

Meini Prawf Asesu		Amcan asesu	Marciau
(a)	dehongli ffynonellau gwybodaeth technegol nodi gofynion o ran adnoddau cyfrifo'r defnyddiau y mae eu hangen	AA2	20
(b)	ysgrifennu a gosod meini prawf llwyddiant	AA1	10
(c)	cynllunio a threfnu gwaith arferion gwaith sy'n hybu iechyd a diogelwch	AA2	10
(ch)	paratoi ar gyfer tasgau adeiladu symud defnyddiau a'u gwaredu	AA2	10
(d)	cyflawni technegau	AA2	20
(dd)	gwerthuso'r tasgau adeiladu	AA3	10
			Cyfanswm 80

Uned 3

Meini Prawf Asesu		Amcan asesu	Marciau
(a)	camau cynllunio a dylunio adeiladau ac adeileddau prosesau adeiladu	AA1	10
(b)	llesiant cymunedau	AA3	10
(c)	gwerthusiadau ôl-ddeiliadaeth	AA3	10
(ch)	cynnal a chadw ac atgyweirio adeiladau newid defnydd	AA2	10
(d)	newid arferion	AA1	10
			Cyfanswm 50

4 GWYBODAETH DECHNEGOL

4.1 Cofrestru

Cymhwyster unedol yw hwn sy'n caniatáu am elfen o asesu mewn camau. Rhaid sefyll o leiaf 40% o'r asesiad cyfan ar ddiwedd y cwrs er mwyn bodloni'r gofyniad am asesiad terfynol ac mae'n rhaid i'r canlyniadau o'r asesiad terfynol gyfrannu at ddyfarniad y pwnc. Gall canolfannau benderfynu pa uned(au) a ddefnyddir i fodloni'r rheol hon. Fel arall, gellir sefyll pob uned ar ddiwedd y cwrs.

Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod mis Mai/Mehefin bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y fanyleb hon.

Haf 2022 fydd y cyfle cyntaf i asesu Uned 1. Haf 2023 fydd y cyfle cyntaf i asesu Unedau 2 a 3 a dyfarniad cyntaf y cymhwyster.

Unwaith yn unig y gall ymgeiswyr ailsefyll uned unigol. Defnyddir y marc unffurf gorau o'r ddau gynnig i gyfrifo gradd derfynol gyffredinol y cymhwyster yn amodol ar fodloni gofynion yr asesiad terfynol i ddechrau; h.y. bod yn rhaid i ymgeiswyr gwblhau 40% o'r asesiad terfynol yn y gyfres y maent yn cyfnewid ynddi. Os yw'r asesiad sy'n cael ei ailsefyll yn cyfrannu at y gofyniad asesiad terfynol o 40%, marc yr asesiad newydd fydd yn cyfrif.

Gall ymgeiswyr sefyll cymhwyster fwy nag unwaith. Fodd bynnag, os yw ymgeisydd wedi rhoi cynnig ar unrhyw uned ddwywaith a'i fod yn dymuno cofrestru amdani am y trydydd tro, bydd rhaid i'r ymgeisydd ail-gofrestru am bob uned a'r cyfnewid priodol. Cyfeirir at hyn fel 'dechrau o'r newydd'. Pan fydd ymgeisydd yn ailsefyll cymhwyster (dechrau o'r newydd), gall roi hyd at ddau gynnig arall ar bob uned. Fodd bynnag, ni ellir defnyddio canlyniadau o unedau a safwyd cyn dechrau o'r newydd wrth agregu'r radd/graddau newydd.

Gellir trosglwyddo marciau ar gyfer y naill uned yr asesiad di-arholiad neu'r llall, neu'r ddwy ohonynt, dros gyfnod oes y fanyleb hon.

Os cofrestrwyd ymgeisydd ar gyfer uned ond ei fod yn absennol ar gyfer yr uned honno, nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais. Fodd bynnag, byddai'r ymgeisydd yn cael ei ddisgrifio fel ymgeisydd ailsefyll.

Nodir y codau cofrestru drosodd.

	Teitl	Codau cofrestru	
		Cyfrwng Saesneg	Cyfrwng Cymraeg
Uned 1	Cyflwyniad i'r Amgylchedd Adeiledig	3509U1	3509N1
Uned 2	Creu'r Amgylchedd Adeiledig (Dylunio'r Amgylchedd Adeiledig)	3509UA	3509NA
Uned 2	Creu'r Amgylchedd Adeiledig (Adeiladu'r Amgylchedd Adeiledig)	3509UB	3509NB
Uned 3	Archwilio'r Amgylchedd Adeiledig	3509U3	3509N3
Cyfnwidiadau unedau TGAU Amgylchedd Adeiledig		3509QS	3509CS

Mae'r argraffiad cyfredol o'n dogfen *Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau* yn rhoi'r dulliau cofrestru diweddaraf.

4.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl

Mae cymwysterau TGAU yn cael eu hadrodd ar raddfa wyth pwynt o A*-G, ac A* yw'r radd uchaf. Bydd y canlyniadau sy'n methu â chyrraedd y safon isaf ar gyfer y dyfarniad yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig).

Caiff canlyniadau unedau unigol eu hadrodd ar raddfa marciau unfurf (GMU) gyda'r cyfatebiaethau gradd canlynol:

	UCHAF	A*	A	B	C	D	E	F	G
Uned 1	140	126	112	98	84	70	56	42	28
Uned 2	160	144	128	112	96	80	64	48	32
Uned 3	100	90	80	70	60	50	40	30	20
Dyfarniad pwnc	400	360	320	280	240	200	160	120	80

Atodiad A

Gridiau Asesu ar gyfer Uned 2 Llwybr A

(a) nodi a chyfrifo gwybodaeth (2.2.1a)		[10 marc]
Band	AA2: <i>Cymhwyso sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth o'r amgylchedd adeiledig mewn amrywiaeth o gyd-destunau.</i>	
	9-10 marc	
4	- Nodi gwybodaeth sy'n berthnasol i'r dasg ddylunio yn drylwyr ac yn effeithiol. - Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn rhagorol er mwyn cyfrifo'r holl wybodaeth berthnasol sy'n ofynnol ar gyfer y dasg ddylunio yn gywir. - Defnydd rhagorol o amrywiaeth o dechnegau priodol i ddatblygu gofynion dylunio lefel uchel ar gyfer y dasg ddylunio dan sylw.	
	6-8 marc	
3	- Nodi gwybodaeth sy'n berthnasol i'r dasg ddylunio yn effeithiol. - Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn dda er mwyn cyfrifo gwybodaeth berthnasol sy'n ofynnol ar gyfer y dasg ddylunio yn gywir. - Defnydd da o dechnegau priodol i ddatblygu gofynion dylunio lefel uchel ar gyfer y dasg ddylunio dan sylw.	
	3-5 marc	
2	- Nodi gwybodaeth sy'n berthnasol i'r dasg ddylunio mewn modd sylfaenol. - Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth mewn modd sylfaenol er mwyn cyfrifo gwybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer y dasg ddylunio. - Defnydd sylfaenol o dechnegau i ddatblygu rhai gofynion dylunio lefel uchel ar gyfer y dasg ddylunio dan sylw.	
	1-2 marc	
1	- Nodi gwybodaeth sy'n berthnasol i'r dasg ddylunio mewn modd cyfyngedig. - Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth i gyfrifo gwybodaeth mewn modd cyfyngedig. - Defnydd cyfyngedig o dechnegau i ddatblygu unrhyw ofynion dylunio lefel uchel ar gyfer y dasg ddylunio dan sylw.	
	0 marc	
	Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb.	

(b) ysgrifennu a gosod meini prawf llwyddiant (2.2.2a)		[10 marc]
Band	AA1: <i>Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r rolau, y sectorau, y cysyniadau a'r prosesau o fewn yr amgylchedd adeiledig gan ddefnyddio terminoleg berthnasol.</i>	
4	9-10 marc - Gwybodaeth a dealltwriaeth ragorol o sut i osod ac ysgrifennu meini prawf llwyddiant. - Ystyriaeth glir a manwl o faterion sy'n ymwneud â lefelau goddefiant, graddfeydd amser ac ansawdd. - Set fanwl a pherthnasol o feini prawf llwyddiant, gan gynnwys amrywiaeth o feini prawf gwrthrychol a mesuradwy fel sail clir i'r gwerthusiad.	
3	6-8 marc - Gwybodaeth a dealltwriaeth dda o sut i osod ac ysgrifennu meini prawf llwyddiant. - Ystyriaeth briodol o faterion sy'n ymwneud â lefelau goddefiant, graddfeydd amser ac ansawdd. - Set berthnasol o feini prawf llwyddiant, gan gynnwys amrywiaeth o feini prawf gwrthrychol fel sail i'r gwerthusiad.	
2	3-5 marc - Gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o sut i osod ac ysgrifennu meini prawf llwyddiant. - Rhywfaint o ystyriaeth o faterion sy'n ymwneud â lefelau goddefiant, graddfeydd amser a/neu ansawdd. - Set o feini prawf llwyddiant, gan gynnwys rhywfaint o feini prawf gwrthrychol fel sail i'r gwerthusiad.	
1	1-2 marc - Gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o sut i osod ac ysgrifennu meini prawf llwyddiant. - Ychydig o ystyriaeth o faterion sy'n ymwneud â lefelau goddefiant, graddfeydd amser neu ansawdd. - Set gyfyngedig o feini prawf llwyddiant, gan gynnwys rhai pwyntiau y gellid eu defnyddio wrth werthuso.	
	0 marc Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb.	

(c) Lluniadu cynlluniau a golygon (2.2.3a a 2.2.4a)		[20 marc]
Band	AA2: <i>Cymhwyso sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth o'r amgylchedd adeiledig mewn amrywiaeth o gyd-destunau.</i>	
	17-20 marc	
5	- Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn rhagorol a defnydd soffistigedig o amrywiaeth o sgiliau i gynhyrchu'r canlynol yn gywir: - amrywiaeth eang o gynlluniau a thrawstoriadau clir, wedi'u lluniadu wrth raddfeydd priodol - cynrychioliadau dau ddimensiwn o arwynebau waliau a thoeon mewnol ac allanol, gan ddangos yn glir amrywiaeth eang o nodweddion a gosodiadau priodol sy'n berthnasol i'r dasg ddylunio.	
	13-16 marc	
4	- Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn dda a defnydd da o amrywiaeth o sgiliau i gynhyrchu'r canlynol yn gywir: - amrywiaeth o gynlluniau a thrawstoriadau, wedi'u lluniadu wrth raddfeydd priodol - cynrychioliadau dau ddimensiwn o arwynebau waliau a thoeon mewnol ac allanol, gan ddangos amrywiaeth o nodweddion a gosodiadau priodol sy'n berthnasol i'r dasg ddylunio.	
	9-12 marc	
3	- Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn foddhaol a defnydd priodol o amrywiaeth fach o sgiliau i gynhyrchu'r canlynol: - amrywiaeth fach o gynlluniau a thrawstoriadau, wedi'u lluniadu wrth raddfa - cynrychioliadau dau ddimensiwn o arwynebau waliau a thoeon mewnol ac allanol, gan ddangos nodweddion a gosodiadau sy'n berthnasol i'r dasg ddylunio.	
	5-8 marc	
2	- Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth mewn modd sylfaenol a defnydd priodol o sgiliau syml i gynhyrchu'r canlynol: - cynlluniau a thrawstoriadau, wedi'u lluniadu wrth raddfa - cynrychioliadau dau ddimensiwn o arwynebau waliau a thoeon, gan ddangos nodweddion a/neu gosodiadau sy'n berthnasol i'r dasg ddylunio.	
	1-4 marc	
1	- Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth a sgiliau cyfyngedig a ddefnyddiwyd mewn modd cyfyngedig i gynhyrchu'r canlynol: - cynlluniau a/neu drawstoriadau - cynrychioliadau dau ddimensiwn o arwynebau waliau a thoeon.	
	0 marc	
	Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb.	

(d) lluniadu cynlluniau dau ddimensiwn a rhith-fodelau a chynlluniau tri dimensiwn (2.2.6a a 2.2.7a) [20 marc]	
Band	AA2: <i>Cymhwyso sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth o'r amgylchedd adeiledig mewn amrywiaeth o gyd-destunau.</i>
5	17-20 marc - Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o gonfensiynau dau ddimensiwn a thri dimensiwn yn rhagorol yn ogystal â gofynion i: - ddatblygu cynlluniau, mireinio cysyniadau a chynhyrchu lluniadau technegol - ychwanegu golygfeydd, cefndiroedd ac amgylchoedd, gan wella cynigion mewn ffyrdd priodol. - Defnydd soffistigedig o amrywiaeth eang o sgiliau a thechnegau i gyfleu syniadau a chynigion yn glir i drydydd parti.
4	13-16 marc - Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o gonfensiynau dau ddimensiwn a thri dimensiwn yn dda yn ogystal â gofynion i: - ddatblygu cynlluniau, mireinio cysyniadau a chynhyrchu lluniadau technegol - ychwanegu golygfeydd, cefndiroedd ac amgylchoedd, gan wella cynigion mewn ffyrdd priodol. - Defnydd da o amrywiaeth o sgiliau a thechnegau i gyfleu syniadau a chynigion i drydydd parti.
3	9-12 marc - Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o gonfensiynau dau ddimensiwn a thri dimensiwn yn foddhaol yn ogystal â gofynion i: - ddatblygu cynlluniau, mireinio cysyniadau a chynhyrchu lluniadau technegol - ychwanegu golygfeydd, cefndiroedd ac amgylchoedd. - Defnydd boddhaol o amrywiaeth fach o sgiliau a thechnegau i gyfleu syniadau a chynigion i drydydd parti.
2	5-8 marc - Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o gonfensiynau dau ddimensiwn a thri dimensiwn mewn modd sylfaenol yn ogystal â gofynion i: - ddatblygu cynlluniau, mireinio cysyniadau a chynhyrchu lluniadau technegol - ychwanegu golygfeydd, cefndiroedd a/neu amgylchoedd. - Defnydd sylfaenol o sgiliau a thechnegau i gyfleu syniadau a chynigion i drydydd parti.
1	1-4 marc - Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o gonfensiynau dau ddimensiwn a thri dimensiwn mewn modd cyfyngedig yn ogystal â gofynion i: - ddatblygu cynlluniau, mireinio cysyniadau neu gynhyrchu lluniadau technegol - ychwanegu golygfeydd, cefndiroedd neu amgylchoedd. - Tystiolaeth gyfyngedig o allu i gyfleu syniadau i drydydd parti.
	0 marc Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb.

(e) defnyddio iaith ddrafftio (2.2.5a)		[10 marc]
Band	AA2: <i>Cymhwyso sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth o'r amgylchedd adeiledig mewn amrywiaeth o gyd-destunau.</i>	
4	9-10 marc - Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o Safonau Prydeinig perthnasol, confensiynau anodi, llinellau a lliniogi, a symbolau yn rhagorol er mwyn cynrychioli syniadau a chynigion yn glir ac yn gywir. - Defnydd soffistigedig o amrywiaeth eang o sgiliau a thechnegau i gyfleu manylion cynhwysfawr a pherthnasol am gydrannau, nodweddion, defnyddiau, dimensiynau a gorffeniadau.	
3	6-8 marc - Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o Safonau Prydeinig perthnasol, confensiynau anodi, llinellau a lliniogi, a symbolau yn dda er mwyn cynrychioli syniadau a chynigion. - Defnydd da o amrywiaeth o sgiliau a thechnegau i gyfleu manylion perthnasol am gydrannau, nodweddion, defnyddiau, dimensiynau a gorffeniadau.	
2	3-5 marc - Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o Safonau Prydeinig perthnasol, confensiynau anodi, llinellau a lliniogi, a/neu symbolau mewn modd sylfaenol er mwyn cynrychioli syniadau a chynigion. - Defnydd sylfaenol o sgiliau a thechnegau i gyfleu manylion am gydrannau, nodweddion, defnyddiau, dimensiynau neu orffeniadau.	
1	1-2 marc - Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o Safonau Prydeinig perthnasol, confensiynau neu symbolau mewn modd cyfyngedig. - Defnydd cyfyngedig o sgiliau neu dechnegau i gyfleu manylion dyluniadau.	
	0 marc Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb.	

(f) gwerthuso'r dasg ddylunio (2.2.8a)		[10 marc]
Band	AA3: <i>Dadansoddi a gwerthuso tystiolaeth, llunio barn wedi'i rhesymu a chyflwyno casgliadau mewn perthynas â:</i> • <i>chynhyrchion/canlyniadau y dysgwyr eu hunain</i> • <i>yr amgylchedd adeiledig a'i effaith ar bobl, yr economi a'r amgylchedd naturiol.</i>	
4	9-10 marc • Dadansoddiad a gwerthusiad beirniadol a gwrthrychol o ganlyniadau yn erbyn: • gofynion y briff • meini prawf llwyddiant a osodwyd yn bersonol • anghenion defnyddwyr terfynol, gan gynnwys eu diogelwch. • Nodi'r potensial am amrywiaeth o welliannau pellach yn glir, gydag awgrymiadau ar gyfer eu cyflawni.	
3	6-8 marc • Dadansoddiad a gwerthusiad gwrthrychol ar y cyfan o ganlyniadau yn erbyn: • gofynion y briff • meini prawf llwyddiant a osodwyd yn bersonol • anghenion defnyddwyr terfynol, gan gynnwys eu diogelwch. • Nodi'r potensial am amrywiaeth fach o welliannau pellach, gyda rhai awgrymiadau ar gyfer eu cyflawni.	
2	3-5 marc • Rhywfaint o ddadansoddiad a gwerthusiad o ganlyniadau yn erbyn: • gofynion y briff • meini prawf llwyddiant a osodwyd yn bersonol • anghenion defnyddwyr terfynol. • Amlinelliad o rai gwelliannau pellach y gellid eu gwneud.	
1	1-2 farc • Gwerthusiad cyfyngedig o ganlyniadau yn erbyn: • gofynion y briff • meini prawf llwyddiant a osodwyd yn bersonol • anghenion defnyddwyr terfynol. • Ychydig o dystiolaeth o ystyried gwelliannau, os o gwbl.	
	0 marc Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb.	

Mapio asesiad di-arholiad Uned 2 Llwybr A i gynnwys y fanyleb a'r amcanion asesu

Meini prawf asesu	Cynnwys y fanyleb (prif ffocws)								Dyraniad marciau			
	Adran								Cyfanswm marciau	Marciau AA1	Marciau AA2	Marciau AA3
	2.2.1a	2.2.2a	2.2.3a	2.2.4a	2.2.5a	2.2.6a	2.2.7a	2.2.8a				
(a)	✓								10	0	10	0
(b)		✓							10	10	0	0
(c)			✓	✓					20	0	20	0
(ch)						✓	✓		20	0	20	0
(d)					✓				10	0	10	0
(dd)								✓	10	0	0	10
Cyfanswm marciau									80	10	60	10

Gridiau Asesu ar gyfer Uned 2 Llwybr B

(a) dehongli ffynonellau gwybodaeth technegol nodi gofynion o ran adnoddau cyfrifo'r defnyddiau y mae eu hangen (2.2.1b, 2.2.3b a 2.2.4b)		[20 marc]
Band	AA2: <i>Cymhwyso sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth o'r amgylchedd adeiledig mewn amrywiaeth o gyd-destunau.</i>	
	17-20 marc	
5	- Dehongliad trylwyr ac effeithiol o ffynonellau gwybodaeth technegol sy'n berthnasol i'r dasg adeiladu, fel: manylebau, rheoliadau adeiladu, lluniadau a briffiau dylunio, fel y bo'n briodol. - Nodi amrywiaeth gynhwysfawr o offer, cyfarpar, cyfarpar diogelu personol a defnyddiau y mae eu hangen ar gyfer y dasg adeiladu yn glir ac yn fanwl. - Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn rhagorol er mwyn cyfrifo'r holl ddefnyddiau perthnasol y mae eu hangen ar gyfer y dasg adeiladu yn gywir.	
	13-16 marc	
4	- Dehongliad effeithiol o ffynonellau gwybodaeth technegol sy'n berthnasol i'r dasg adeiladu, fel: manylebau, rheoliadau adeiladu, lluniadau a briffiau dylunio, fel y bo'n briodol. - Nodi amrywiaeth o offer, cyfarpar, cyfarpar diogelu personol a defnyddiau y mae eu hangen ar gyfer y dasg adeiladu yn glir. - Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn dda er mwyn cyfrifo'r defnyddiau perthnasol y mae eu hangen ar gyfer y dasg adeiladu yn gywir.	
	9-12 marc	
3	- Dehongliad boddhaol o ffynonellau gwybodaeth technegol sy'n berthnasol i'r dasg adeiladu, fel: manylebau, rheoliadau adeiladu, lluniadau a/neu friffiau dylunio, fel y bo'n briodol. - Nodi rhywfaint o offer, cyfarpar, cyfarpar diogelu personol a defnyddiau y mae eu hangen ar gyfer y dasg adeiladu mewn modd priodol ar y cyfan. - Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn foddhaol er mwyn cyfrifo'r defnyddiau perthnasol y mae eu hangen ar gyfer y dasg adeiladu.	
	5-8 marc	
2	- Dehongliad sylfaenol o rai ffynonellau gwybodaeth technegol sy'n berthnasol i'r dasg adeiladu, fel: manylebau, rheoliadau adeiladu, lluniadau neu friffiau dylunio, fel y bo'n briodol. - Nodi offer, cyfarpar, cyfarpar diogelu personol a/neu ddefnyddiau y mae eu hangen ar gyfer y dasg adeiladu mewn modd sylfaenol. - Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth mewn modd sylfaenol er mwyn cyfrifo'r defnyddiau y mae eu hangen ar gyfer y dasg adeiladu.	
	1-4 marc	
1	- Dehongliad cyfyngedig o ffynonellau gwybodaeth sy'n berthnasol i'r dasg adeiladu. - Ychydig o ddefnyddiau y mae eu hangen ar gyfer y dasg adeiladu wedi eu nodi. - Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth mewn modd cyfyngedig er mwyn cyfrifo'r defnyddiau sy'n berthnasol i'r dasg adeiladu.	
	0 marc	
	Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb.	

(b) ysgrifennu a gosod meini prawf llwyddiant (2.2.5b)		[10 marc]
Band	AA1: <i>Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r rolau, y sectorau, y cysyniadau a'r prosesau o fewn yr amgylchedd adeiledig gan ddefnyddio terminoleg berthnasol.</i>	
4	9-10 marc - Gwybodaeth a dealltwriaeth ragorol o sut i osod ac ysgrifennu meini prawf llwyddiant. - Ystyriaeth glir a manwl o faterion sy'n ymwneud â lefelau goddefiant, graddfeydd amser ac ansawdd. - Set fanwl a pherthnasol o feini prawf llwyddiant, gan gynnwys amrywiaeth o feini prawf gwrthrychol a mesuradwy fel sail clir i'r gwerthusiad.	
3	6-8 marc - Gwybodaeth a dealltwriaeth dda o sut i osod ac ysgrifennu meini prawf llwyddiant. - Ystyriaeth briodol o faterion sy'n ymwneud â lefelau goddefiant, graddfeydd amser ac ansawdd. - Set berthnasol o feini prawf llwyddiant, gan gynnwys amrywiaeth o feini prawf gwrthrychol fel sail i'r gwerthusiad.	
2	3-5 marc - Gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o sut i osod ac ysgrifennu meini prawf llwyddiant. - Rhywfaint o ystyriaeth o faterion sy'n ymwneud â lefelau goddefiant, graddfeydd amser a/neu ansawdd. - Set o feini prawf llwyddiant, gan gynnwys rhywfaint o feini prawf gwrthrychol fel sail i'r gwerthusiad.	
1	1-2 marc - Gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o sut i osod ac ysgrifennu meini prawf llwyddiant. - Ychydig o ystyriaeth o faterion sy'n ymwneud â lefelau goddefiant, graddfeydd amser neu ansawdd. - Set gyfyngedig o feini prawf llwyddiant, gan gynnwys rhai pwyntiau y gellid eu defnyddio wrth werthuso.	
	0 marc Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb.	

(c) cynllunio a threfnu gwaith arferion gwaith sy'n hybu iechyd a diogelwch (2.2.2b a 2.2.9b)		[10 marc]
Band	AA2: <i>Cymhwyso sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth o'r amgylchedd adeiledig mewn amrywiaeth o gyd-destunau.</i>	
	9-10 marc	
4	- Tystiolaeth dda iawn o gynllunio a threfnu gwaith, gan gynnwys y ffordd mae gwaith wedi'i gynllunio a'i roi mewn trefn a sut mae'n bodloni terfynau amser priodol ac arferion iechyd a diogelwch perthnasol. - Cyfleu trefn resymegol ac effeithlon ac amserlen gyraeddadwy ar gyfer y dasg adeiladu mewn modd clir ac effeithiol, mewn dau faes crefft a ddewiswyd. - Tystiolaeth dda iawn o ddefnyddio arferion gwaith sy'n hybu iechyd a diogelwch dysgwyr, ac eraill, gan gynnwys sicrhau bod ardaloedd gwaith yn lân ac yn ddiogel, a defnyddio cyfarpar diogelu personol cywir yn briodol.	
	6-8 marc	
3	- Tystiolaeth dda o gynllunio a threfnu gwaith, gan gynnwys y ffordd mae gwaith wedi'i gynllunio a'i roi mewn trefn a sut mae'n bodloni terfynau amser ac arferion iechyd a diogelwch perthnasol. - Cyfleu trefn ac amserlen ar gyfer y dasg adeiladu sy'n briodol ar y cyfan mewn modd clir, mewn dau faes crefft a ddewiswyd. - Tystiolaeth dda o ddefnyddio arferion gwaith sy'n hybu iechyd a diogelwch dysgwyr, ac eraill, gan gynnwys sicrhau bod ardaloedd gwaith yn lân ac yn ddiogel, a defnyddio cyfarpar diogelu personol cywir yn briodol.	
	3-5 marc	
2	- Rhywfaint o dystiolaeth o gynllunio a threfnu gwaith, gan gynnwys y ffordd mae gwaith wedi'i gynllunio a'i roi mewn trefn a sut mae'n bodloni terfynau amser a/neu arferion iechyd a diogelwch yn gyffredinol. - Cyfleu trefn a/neu amserlen sylfaenol ar gyfer y dasg adeiladu, mewn dau faes crefft a ddewiswyd. - Rhywfaint o dystiolaeth o ddefnyddio arferion gwaith sy'n hybu iechyd a diogelwch, gan gynnwys sicrhau bod ardaloedd gwaith yn lân ac yn ddiogel, a/neu ddefnyddio cyfarpar diogelu personol cywir yn briodol.	
	1-2 marc	
1	- Ychydig o dystiolaeth o gynllunio neu drefnu gwaith, gan gynnwys y ffordd mae wedi'i gynllunio a'i roi mewn trefn neu sut mae'n bodloni terfynau amser neu arferion iechyd a diogelwch. - Cyfleu trefn a/neu amserlen arwynebol ar gyfer y dasg adeiladu. - Ychydig o dystiolaeth o ddefnyddio arferion gwaith sy'n hybu iechyd a diogelwch neu ddefnyddio cyfarpar diogelu personol yn briodol.	
	0 marc	
	Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb.	

(d) paratoi ar gyfer tasgau adeiladu symud defnyddiau a'u gwaredu (2.2.6b a 2.2.8b) [10 marc]	
Band	AA2: <i>Cymhwyso sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth o'r amgylchedd adeiledig mewn amrywiaeth o gyd-destunau.</i>
4	9-10 marc - Paratoi defnyddiau yn drylwyr ac yn effeithiol, gan ddangos gallu da iawn i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o: - briodweddau defnyddiau - ffurfiau stoc, mathau a meintiau defnyddiau a/neu gydrannau. - Tystiolaeth dda iawn o: - ddethol, trefnu a gwirio defnyddiau priodol yn drylwyr - mesur, marcio, torri a gosod, gyda lefel uchel o gywirdeb, fel sy'n briodol i'r defnyddiau a'r dasg adeiladu - lleihau gwastraff a gwaredu defnyddiau mewn modd diogel a chyfrifol.
3	6-8 marc - Paratoi defnyddiau yn effeithiol, gan ddangos gallu da i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o: - briodweddau defnyddiau - ffurfiau stoc, mathau a meintiau defnyddiau a/neu gydrannau. - Tystiolaeth dda o: - ddethol, trefnu a gwirio defnyddiau - mesur, marcio, torri a gosod yn gywir, fel sy'n briodol i'r defnyddiau a'r dasg adeiladu - lleihau gwastraff a gwaredu defnyddiau mewn modd diogel a chyfrifol.
2	3-5 marc - Paratoi defnyddiau mewn modd sylfaenol, gan ddangos rhywfaint o allu i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o: - briodweddau defnyddiau - ffurfiau stoc, mathau a meintiau defnyddiau a/neu gydrannau. - Rhywfaint o dystiolaeth o: - ddethol a/neu drefnu defnyddiau - mesur, marcio, torri a/neu osod, yn gywir ar y cyfan, fel sy'n briodol i'r defnyddiau a'r dasg adeiladu - lleihau gwastraff a gwaredu defnyddiau'n ddiogel.
1	1-2 marc - Paratoi defnyddiau mewn modd cyfyngedig, gan ddangos gallu cyfyngedig i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o: - briodweddau defnyddiau - ffurfiau stoc, mathau a/neu feintiau defnyddiau a/neu gydrannau. - Tystiolaeth gyfyngedig o: - ddethol neu drefnu defnyddiau - mesur, marcio, torri neu osod ag unrhyw fath o gywirdeb - gwaredu defnyddiau'n ddiogel.
	0 marc Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb.

(e) cyflawni technegau (2.2.7b)		[20 marc]
Band	AA2: <i>Cymhwyso sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth o'r amgylchedd adeiledig mewn amrywiaeth o gyd-destunau.</i>	
5	17-20 marc - Wedi dethol a gweithio gyda defnyddiau priodol i gwblhau'r dasg adeiladu yn llwyddiannus o fewn amserlen ddiffiniedig. - Tystiolaeth o ddefnyddio offer, technegau, prosesau a chyfarpar gyda lefel uchel o gywirdeb a thrachywiredd. - Defnydd soffistigedig o amrywiaeth eang o sgiliau a phrosesau gwneud priodol i gynhyrchu canlyniad o ansawdd uchel sy'n addas i'r pwrpas.	
4	13-16 marc - Wedi dethol a gweithio gyda defnyddiau priodol i gwblhau'r dasg adeiladu yn llwyddiannus o fewn amserlen ddiffiniedig ar y cyfan. - Tystiolaeth o ddefnyddio offer, technegau, prosesau a chyfarpar gyda chywirdeb a thrachywiredd. - Defnydd da o amrywiaeth o sgiliau a phrosesau gwneud priodol i gynhyrchu canlyniad o ansawdd da sy'n addas i'r pwrpas.	
3	9-12 marc - Wedi dethol a gweithio gyda defnyddiau i gwblhau'r dasg adeiladu, o fewn amserlen yn fras. - Tystiolaeth o ddefnyddio offer, technegau, prosesau a chyfarpar, gyda chywirdeb ar y cyfan a thrachywiredd boddhaol. - Defnydd boddhaol o amrywiaeth fach o sgiliau a phrosesau gwneud priodol i gynhyrchu canlyniad sy'n addas i'r pwrpas ar y cyfan.	
2	5-8 marc - Wedi dethol a gweithio gyda defnyddiau i gwblhau'r dasg adeiladu ar y cyfan. - Tystiolaeth o ddefnyddio offer, technegau, prosesau a chyfarpar gyda rhywfaint o gywirdeb. - Defnydd sylfaenol o amrywiaeth fach o sgiliau a phrosesau gwneud priodol i gynhyrchu canlyniad sy'n gyflawn ar y cyfan.	
1	1-4 marc - Wedi gweithio gyda defnyddiau i gwblhau'r dasg adeiladu yn rhannol. - Tystiolaeth gyfyngedig o ddefnyddio offer, technegau, prosesau a chyfarpar gydag unrhyw gywirdeb. - Defnydd cyfyngedig o rai sgiliau a phrosesau gwneud i gynhyrchu canlyniad sy'n rhannol gyflawn.	
	0 marc Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb.	

(f) gwerthuso'r tasgau adeiladu (2.2.10b)		[10 marc]
Band	AA3: <i>Dadansoddi a gwerthuso tystiolaeth, llunio barn wedi'i rhesymu a chyflwyno casgliadau mewn perthynas â:</i> • <i>chynhyrchion/canlyniadau y dysgwyr eu hunain</i> • <i>yr amgylchedd adeiledig a'i effaith ar bobl, yr economi a'r amgylchedd naturiol.</i>	
4	9-10 marc • Dadansoddiad a gwerthusiad beirniadol a gwrthrychol o ganlyniadau yn erbyn: • gofynion y briff • meini prawf llwyddiant a osodwyd yn bersonol • anghenion defnyddwyr terfynol, gan gynnwys eu diogelwch. • Nodi'r potensial am amrywiaeth o welliannau pellach yn glir, gydag awgrymiadau ar gyfer eu cyflawni.	
3	6-8 marc • Dadansoddiad a gwerthusiad gwrthrychol ar y cyfan o ganlyniadau yn erbyn: • gofynion y briff • meini prawf llwyddiant a osodwyd yn bersonol • anghenion defnyddwyr terfynol, gan gynnwys eu diogelwch. • Nodi'r potensial am amrywiaeth fach o welliannau pellach, gyda rhai awgrymiadau ar gyfer eu cyflawni.	
2	3-5 marc • Rhywfaint o ddadansoddiad a gwerthusiad o ganlyniadau yn erbyn: • gofynion y briff • meini prawf llwyddiant a osodwyd yn bersonol • anghenion defnyddwyr terfynol. • Amlinelliad o rai gwelliannau pellach y gellid eu gwneud.	
1	1-2 marc • Gwerthusiad cyfyngedig o ganlyniadau yn erbyn: • gofynion y briff • meini prawf llwyddiant a osodwyd yn bersonol, neu • anghenion defnyddwyr terfynol. • Ychydig o dystiolaeth o ystyried gwelliannau, os o gwbl.	
	0 marc Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb.	

Mapio asesiad di-arholiad Uned 2 Llwybr B i gynnwys y fanyleb a'r amcanion asesu

Meini prawf asesu	Cynnwys y fanyleb (prif ffocws)										Dyraniad marciau			
	Adran										Cyfanswm marciau	Marciau AA1	Marciau AA2	Marciau AA3
	2.2.1b	2.2.2b	2.2.3b	2.2.4b	2.2.5b	2.2.6b	2.2.7b	2.2.8b	2.2.9b	2.2.10b				
(a)	✓		✓	✓							20	0	20	0
(b)					✓						10	10	0	0
(c)		✓							✓		10	0	10	0
(ch)						✓		✓			10	0	10	0
(d)							✓				20	0	20	0
(dd)										✓	10	0	0	10
Cyfanswm marciau											80	10	60	10

Gridiau Asesu ar gyfer Uned 3

(a) camau cynllunio a dylunio adeiladau ac adeileddau prosesau adeiladu (2.3.1 a 2.3.2)		[10 marc]
Band	AA1: <i>Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r rolau, y sectorau, y cysyniadau a'r prosesau o fewn yr amgylchedd adeiledig gan ddefnyddio terminoleg berthnasol.</i>	
4	9-10 marc - Gwybodaeth a dealltwriaeth ragorol o'r canlynol: - camau cynllunio a dylunio adeiladau ac adeileddau, gan gynnwys camau 0 i 4 RIBA - gwaith adeiladu, gan gynnwys cam 5 RIBA. - Amrywiaeth wedi'i dewis yn dda o enghreifftiau priodol sy'n dangos yn glir sut mae amgylchedd adeiledig yr ymgeisydd wedi cael ei: - cynllunio a'i ddylunio i ddiwallu anghenion penodol - adeiladu i ddiwallu anghenion penodol.	
3	6-8 marc - Gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r canlynol: - camau cynllunio a dylunio adeiladau ac adeileddau, gan gynnwys camau 0 i 4 RIBA - gwaith adeiladu, gan gynnwys cam 5 RIBA. - Amrywiaeth o enghreifftiau priodol sy'n dangos sut mae amgylchedd adeiledig yr ymgeisydd wedi cael ei: - cynllunio a'i ddylunio i ddiwallu anghenion penodol - adeiladu i ddiwallu anghenion penodol.	
2	3-5 marc - Gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o'r canlynol: - camau cynllunio a/neu ddylunio adeiladau ac adeileddau, gan gynnwys rhai agweddau ar gamau 0 i 4 RIBA - gwaith adeiladu, gan gynnwys cam 5 RIBA. - Rhai enghreifftiau sy'n dangos yn gyffredinol sut mae amgylchedd adeiledig yr ymgeisydd wedi cael ei: - cynllunio a'i ddylunio i ddiwallu anghenion penodol, a/neu - adeiladu i ddiwallu anghenion penodol.	
1	1-2 marc - Gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o'r canlynol: - camau cynllunio neu ddylunio adeiladau ac adeileddau - gwaith adeiladu. - Rhai enghreifftiau sy'n dangos yn gyffredinol sut mae amgylchedd adeiledig yr ymgeisydd wedi cael ei gynllunio, ei ddylunio neu ei adeiladu.	
	0 marc Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb.	

(b) Llesiant cymunedau (2.3.3)		[10 marc]
Band	AA3: <i>Dadansoddi a gwerthuso tystiolaeth, llunio barn wedi'i rhesymu a chyflwyno casgliadau mewn perthynas â:</i> • <i>chynhyrchion/canlyniadau y dysgwyr eu hunain</i> • <i>yr amgylchedd adeiledig a'i effaith ar bobl, yr economi a'r amgylchedd naturiol.</i>	
4	9-10 marc • Dadansoddiad a gwerthusiad beirniadol a gwrthrychol o effaith gymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol amgylchedd adeiledig yr ymgeisydd. • Tystiolaeth gref o farn wedi'i rhesymu a chasgliadau perthnasol am effeithiau'r ffactorau hyn ar lesiant cymunedau.	
3	6-8 marc • Dadansoddiad a gwerthusiad gwrthrychol ar y cyfan o effaith gymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol amgylchedd adeiledig yr ymgeisydd. • Tystiolaeth sicr o farn wedi'i rhesymu a chasgliadau am effeithiau'r ffactorau hyn ar lesiant cymunedau.	
2	3-5 marc • Rhywfaint o ddadansoddiad a gwerthusiad o effaith gymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a/neu ddiwylliannol amgylchedd adeiledig yr ymgeisydd. • Rhywfaint o dystiolaeth o farn am effeithiau'r ffactorau hyn ar lesiant cymunedau.	
1	1-2 marc • Gwerthusiad cyfyngedig o effaith gymdeithasol, economaidd, amgylcheddol neu ddiwylliannol amgylchedd adeiledig yr ymgeisydd. • Ychydig o dystiolaeth o farn am effeithiau'r ffactorau hyn ar lesiant cymunedau, os o gwbl.	
	0 marc Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb.	

(c) gwerthusiadau ôl-ddeiliadaeth (2.3.4)		[10 marc]
Band	AA3: <i>Dadansoddi a gwerthuso tystiolaeth, llunio barn wedi'i rhesymu a chyflwyno casgliadau mewn perthynas â:</i> • <i>chynhyrchion/canlyniadau y dysgwyr eu hunain</i> • <i>yr amgylchedd adeiledig a'i effaith ar bobl, yr economi a'r amgylchedd naturiol.</i>	
4	9-10 marc • Dadansoddiad a gwerthusiad beirniadol a gwrthrychol o adeilad neu ased o ran costau rhedeg, boddhad staff a chleientiaid, perfformiad, iechyd a diogelwch a chysur. • Tystiolaeth gref o farn wedi'i rhesymu a chasgliadau perthnasol am werth gwerthusiadau ôl-ddeiliadaeth i nodi materion presennol a llywio gwaith yn y dyfodol.	
3	6-8 marc • Dadansoddiad a gwerthusiad gwrthrychol ar y cyfan o adeilad neu ased o ran costau rhedeg, boddhad staff a chleientiaid, perfformiad, iechyd a diogelwch a chysur. • Tystiolaeth sicr o farn wedi'i rhesymu a chasgliadau am werth gwerthusiadau ôl-ddeiliadaeth i nodi materion presennol a llywio gwaith yn y dyfodol.	
2	3-5 marc • Rhywfaint o ddadansoddiad a gwerthusiad o adeilad neu ased o ran costau rhedeg, boddhad staff a chleientiaid, perfformiad, iechyd a diogelwch a chysur. • Rhywfaint o dystiolaeth o farn am werth gwerthusiadau ôl-ddeiliadaeth i nodi materion presennol a/neu lywio gwaith yn y dyfodol.	
1	1-2 farc • Gwerthusiad cyfyngedig o adeilad neu ased o ran costau rhedeg, boddhad staff a chleientiaid, perfformiad, iechyd a diogelwch neu gysur. • Ychydig o dystiolaeth o farn am werth gwerthusiadau ôl-ddeiliadaeth i nodi materion presennol neu lywio gwaith yn y dyfodol, os o gwbl.	
	0 marc Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb.	

(d)	cynnal a chadw ac atgyweirio adeiladau newid defnydd (2.3.5 a 2.3.6) [10 marc]
Band	AA2: <i>Cymhwyso sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth o'r amgylchedd adeiledig mewn amrywiaeth o gyd-destunau.</i>
4	9-10 marc - Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn rhagorol i ddarparu esboniad clir a manwl o'r canlynol: - y prosesau sy'n gysylltiedig â chyflawni gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio mewn adeilad penodol - effaith bosibl cyflawni'r atgyweiriadau hyn ar ddefnyddwyr - y prosesau sy'n gysylltiedig ag adnewyddu, ailgylchu ac aildddefnyddio adeiladau neu asedau a nodwyd i bwrpas newid defnydd neu newid defnydd posibl. - Defnydd soffistigedig o amrywiaeth eang o sgiliau a thechnegau i gyflwyno canfyddiadau mewn ffyrdd diddorol a phriodol.
3	6-8 marc - Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn dda i ddarparu esboniad clir o'r canlynol: - y prosesau sy'n gysylltiedig â chyflawni gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio mewn adeilad penodol - effaith bosibl cyflawni'r atgyweiriadau hyn ar ddefnyddwyr - y prosesau sy'n gysylltiedig ag adnewyddu, ailgylchu ac aildddefnyddio adeiladau neu asedau a nodwyd i bwrpas newid defnydd neu newid defnydd posibl. - Defnydd da o amrywiaeth o sgiliau a thechnegau TGCh i gyflwyno canfyddiadau mewn ffyrdd priodol.
2	3-5 marc - Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth mewn modd sylfaenol i ddarparu esboniad syml o'r canlynol: - y prosesau sy'n gysylltiedig â chyflawni gwaith cynnal a chadw a/neu atgyweirio mewn adeilad penodol - effaith bosibl cyflawni atgyweiriadau ar ddefnyddwyr - y prosesau sy'n gysylltiedig ag adnewyddu, ailgylchu neu aildddefnyddio adeiladau neu asedau a nodwyd i bwrpas newid defnydd neu newid defnydd posibl - Defnydd sylfaenol o sgiliau a thechnegau TGCh i gyflwyno canfyddiadau mewn ffyrdd priodol ar y cyfan.
1	1-2 marc - Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth mewn modd cyfyngedig i esbonio'r canlynol: - y prosesau sy'n gysylltiedig â chyflawni gwaith cynnal a chadw neu atgyweirio mewn adeiladau - effaith bosibl cyflawni atgyweiriadau - y prosesau sy'n gysylltiedig ag adnewyddu, ailgylchu neu aildddefnyddio adeiladau neu asedau i bwrpas newid defnydd neu newid defnydd posibl - Defnydd cyfyngedig o TGCh i gyflwyno canfyddiadau.
	0 marc Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb.

(e) newid arferion (2.3.7)		[10 marc]
Band	AA1: <i>Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r rolau, y sectorau, y cysyniadau a'r prosesau o fewn yr amgylchedd adeiledig gan ddefnyddio terminoleg berthnasol.</i>	
4	9-10 marc - Gwybodaeth a dealltwriaeth ragorol o arferion dylunio ac adeiladu'r amgylchedd adeiledig, o ran adeiladau cyfoes ac adeiladau cyn 1919. - Cymhariaeth glir a manwl o'r canlynol: - y gwaith o ddylunio ac adeiladu adeiladau cyfoes, gan gynnwys y defnyddiau a ddefnyddir a phriodweddau perthnasol y defnyddiau hynny - y gwaith o ddylunio ac adeiladu adeiladau treftadaeth, gan gynnwys y defnyddiau traddodiadol a ddefnyddiwyd a phriodweddau perthnasol y defnyddiau hynny.	
3	6-8 marc - Gwybodaeth a dealltwriaeth dda o arferion dylunio ac adeiladu'r amgylchedd adeiledig, o ran adeiladau cyfoes ac adeiladau cyn 1919. - Cymhariaeth gadarn o'r canlynol: - y gwaith o ddylunio ac adeiladu adeiladau cyfoes, gan gynnwys y defnyddiau a ddefnyddir a phriodweddau'r defnyddiau hynny - y gwaith o ddylunio ac adeiladu adeiladau treftadaeth, gan gynnwys y defnyddiau traddodiadol a ddefnyddiwyd a phriodweddau'r defnyddiau hynny.	
2	3-5 marc - Gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o arferion dylunio ac adeiladu'r amgylchedd adeiledig, gan gyfeirio rhywfaint at adeiladau cyfoes a/neu adeiladau cyn 1919. - Cymhariaeth syml o'r canlynol: - y gwaith o ddylunio ac adeiladu adeiladau cyfoes, gan gynnwys y defnyddiau a ddefnyddir a rhai o briodweddau'r defnyddiau hynny - y gwaith o ddylunio ac adeiladu adeiladau treftadaeth, gan gynnwys y defnyddiau traddodiadol a ddefnyddiwyd a rhai o briodweddau'r defnyddiau hynny.	
1	1-2 marc - Gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o arferion dylunio ac adeiladu'r amgylchedd adeiledig. - Amlinelliad cyfyngedig o'r gwaith o ddylunio ac adeiladu adeiladau, gan gyfeirio rhywfaint at ddefnyddiau a ddefnyddir.	
	0 marc Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb.	

Mapio asesiad di-arholiad Uned 3 i gynnwys y fanyleb a'r amcanion asesu

Meini prawf asesu	Cynnwys y fanyleb (prif ffocws)							Dyraniad marciau			
	Adran							Cyfanswm marciau	Marciau AA1	Marciau AA2	Marciau AA3
	2.3.1	2.3.2	2.3.3	2.3.4	2.3.5	2.3.6	2.3.7				
(a)	✓	✓						10	10	0	0
(b)			✓					10	0	0	10
(c)				✓				10	0	0	10
(ch)					✓	✓		10	0	10	0
(d)							✓	10	10	0	0
Cyfanswm marciau								50	20	10	20

Atodiad B

Tasgau Asesu Di-arholiad



TGAU AMGYLCHEDD ADEILEDIG

UNED 2

CREU'R AMGYLCHEDD ADEILEDIG

Llwybr A

TASG DYLUNIO'R AMGYLCHEDD ADEILEDIG

Tua 25 awr

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Darllenwch y wybodaeth dros y dudalen yn ofalus er mwyn sicrhau eich bod yn deall yr hyn y mae ei angen.

Mae'n bwysig eich bod yn gweithio'n annibynnol ar ymgeiswyr eraill ac yn sicrhau mai eich gwaith digymorth eich hun y byddwch yn ei gyflwyno.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwirio eich gwaith yn ofalus er mwyn sicrhau ei fod yn gywir.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Bydd angen i athrawon ac ymgeiswyr lofnodi datganiad mai gwaith yr ymgeisydd yn unig yw'r holl waith sy'n cael ei gyflwyno.

Mae mwy o wybodaeth am asesu'r uned hon i'w gweld yn Atodiad A y fanyleb.

Mae'r dasg hon yn ymwneud â dylunio estyniad ar gyfer adeilad yng Nghymru.

Mae angen i chi osod briff amlinell a chwblhau'r gweithgareddau isod. Ceir cyd-destun ar gyfer y dasg hon yn y blwch tywyll. Gallwch chi ddefnyddio'r cyd-destun hwn ar gyfer y dasg, ei addasu neu ddyfeisio eich cyd-destun eich hun. Os ydych chi'n penderfynu defnyddio eich cyd-destun eich hun, mae'n rhaid i chi sicrhau y bydd yn eich galluogi i ennill marciau ym mhob un o'r adrannau, (a) i (dd), yn y cynllun marcio.

Mae'r dasg hon yn ymwneud â dylunio estyniad unllawr ar gyfer neuadd gymunedol. Mae rhywfaint o wybodaeth am yr estyniad wedi'i darparu i chi; mae'n rhaid i chi benderfynu ar y gweddill.

Mae'n rhaid i'r estyniad i'r neuadd gymunedol gynnwys prif ystafell sy'n gallu dal hyd at 40 o bobl. Mae'n rhaid i'r estyniad gynnwys y canlynol hefyd:

- cegin
- toiledau dynion a menywod
- ardal galed i gerddwyr y tu allan, o amgylch tair ochr o'r estyniad.

Mae gofynion y fanyleb yn cynnwys:

- cyfanswm arwynebedd y llawr rhwng 90 a 120 metr sgwâr
- arwynebedd llawr y gegin rhwng 10 a 15 metr sgwâr
- to ar ongl.

Dylid adeiladu'r estyniad gan ddefnyddio dulliau adeiladu cynaliadwy yn unig. Dylid gosod paneli solar ar y to ar ongl a dylid casglu dŵr glaw er mwyn cyflenwi rhywfaint o'r dŵr ar gyfer yr adeilad.

Mae'n rhaid i chi nodi'r canlynol:

- y prif ddefnyddiau ar gyfer y waliau a'r math o waith adeiladu
- y prif ddefnydd ar gyfer y to a'r math o waith adeiladu
- manylion am yr ardal awyr agored.

Eich tasg yw lluniadu cynlluniau o'r dyluniad arfaethedig fel y gellir eu dangos i'r cleient. Bydd hyn yn cynnwys:

- cynlluniau bloc
- cynlluniau llawr
- trawstoriadau
- lluniadau wrth raddfa
- golygon mewnol ac allanol
- cynlluniau 2D a 3D.

Mae angen i chi hefyd:

- nodi a chyfrifo gwybodaeth sy'n berthnasol i'r dyluniad
- ysgrifennu a gosod meini prawf llwyddiant
- gwerthuso'r dasg ddylunio.

Bydd marciau'n cael eu rhoi am y canlynol:

(a)	nodi a chyfrifo gwybodaeth sy'n berthnasol i'r dyluniad, fel arwynebedd, cyfaint, dimensiynau, onglau a gofynion dylunio lefel uchel	[10]
(b)	ysgrifennu a gosod meini prawf llwyddiant ar gyfer y dasg, i gynnwys lefelau goddefiant, graddfeydd amser ac ansawdd	[10]
(c)	lluniadu cynlluniau a golygon i gynnwys cynlluniau bloc, cynlluniau llawr, trawstoriadau, lluniadau wrth raddfa, golygon mewnol ac allanol	[20]
(ch)	lluniadu cynlluniau dau ddimensiwn a rhith-fodelau a chynlluniau tri dimensiwn i ddatblygu cynlluniau, mireinio cysyniadau, ychwanegu golygfeydd, cefndiroedd ac amgylchoedd, gwella cynigion mewn ffyrdd priodol	[20]
(d)	defnyddio iaith ddrafftio drwy gymhwyso Safonau Prydeinig perthnasol, confensiynau anodi, llinellau a lliniogi, a defnyddio symbolau er mwyn cynrychioli syniadau a chynigion	[10]
(dd)	gwerthuso'r dasg ddylunio drwy baratoi adroddiad sy'n gwerthuso yn erbyn gofynion y briff, meini prawf llwyddiant a osodwyd yn bersonol ac anghenion defnyddwyr terfynol, gan gynnwys eu diogelwch, gan awgrymu gwelliannau lle y bo'n briodol.	[10]
Cyfanswm marciau		[80]



TGAU AMGYLCHEDD ADEILEDIG

UNED 2

CREU'R AMGYLCHEDD ADEILEDIG

Llwybr B

TASG ADEILADU'R AMGYLCHEDD ADEILEDIG

Tua 25 awr

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Darllenwch y wybodaeth dros y dudalen yn ofalus er mwyn sicrhau eich bod yn deall yr hyn y mae ei angen.

Mae'n bwysig eich bod yn gweithio'n annibynnol ar ymgeiswyr eraill ac yn sicrhau mai eich gwaith digymorth eich hun y byddwch yn ei gyflwyno

Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwirio eich gwaith yn ofalus er mwyn sicrhau ei fod yn gywir.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Bydd angen i athrawon ac ymgeiswyr lofnodi datganiad mai gwaith yr ymgeisydd yn unig yw'r holl waith sy'n cael ei gyflwyno.

Mae mwy o wybodaeth am asesu'r uned hon i'w gweld yn Atodiad A y fanyleb.

Mae'r dasg hon yn ymwneud ag adeiladu estyniad ar adeilad yng Nghymru.

Mae angen i chi osod briff amlinell a chwblhau'r gweithgareddau isod. Ceir cyd-destun ar gyfer y dasg hon yn y blwch tywyll. Gallwch chi ddefnyddio'r cyd-destun hwn ar gyfer y dasg, ei addasu neu ddyfeisio eich cyd-destun eich hun. Os ydych chi'n penderfynu defnyddio eich cyd-destun eich hun, mae'n rhaid i chi sicrhau y bydd yn eich galluogi i ennill marciau ym mhob un o'r adrannau, (a) i (dd), yn y cynllun marcio.

Mae'r dasg hon yn ymwneud ag adeiladu estyniad ar hostel ieuenctid. Mae rhywfaint o wybodaeth am yr estyniad wedi'i darparu i chi; mae'n rhaid i chi benderfynu ar y gweddill.

Mae'n rhaid i'r estyniad i'r hostel ieuenctid gynnwys lle ar gyfer hyd at 20 o bobl. Rhaid iddo gynnwys y canlynol:

- cegin
- ystafell fwyta
- dwy ystafell gawod gyda thoiledau
- dwy ystafell gysgu (â lle i wyth person yn y ddwy)
- pedair ystafell sengl.

Dylid adeiladu'r estyniad gan ddefnyddio dulliau adeiladu cynaliadwy yn unig. Dylid gosod paneli solar ar y to ar ongl a dylid casglu dŵr glaw er mwyn cyflenwi rhywfaint o'r dŵr ar gyfer yr adeilad.

Eich tasg yw adeiladu cydran/cydrannau o'r estyniad gan ddefnyddio dau faes crefft. Mae'n rhaid ymgymryd ag un maes crefft â ffocws cyfoes a, lle y bo'n berthnasol, dylid ymgymryd â'r maes crefft arall â ffocws traddodiadol. Gallwch gynhyrchu modelau wrth raddfa o'r gydran/cydrannau, ar yr amod bod yr un sgiliau a thechnegau adeiladu â'r rhan/rhannau maint llawn yn ofynnol ar eu cyfer.

Mae'n rhaid i chi wneud y canlynol:

Llunio cynllun yn dangos sut caiff y gwaith ei gwblhau, gan gynnwys tystiolaeth o'r canlynol:

- dehongli ffynonellau gwybodaeth technegol, fel: rheoliadau adeiladu, lluniadau a briffiau dylunio⁴
- cynllunio a threfnu eich gwaith
- nodi gofynion o ran adnoddau
- cyfrifo'r defnyddiau y mae eu hangen
- ysgrifennu a gosod meini prawf llwyddiant.

Cwblhau'r gwaith adeiladu a nodwyd, gan gynnwys tystiolaeth o'r canlynol:

- paratoi ar gyfer tasgau adeiladu
- cyflawni technegau (mewn dau faes)
- symud defnyddiau a'u gwaredu yn ddiogel
- defnyddio arferion gwaith sy'n hybu iechyd a diogelwch.

Gwerthuso'r dasg adeiladu.

⁴ Gallwch ddyfeisio'r manylebau, y rheoliadau adeiladu, y lluniadau a'r briffiau dylunio (fel sy'n briodol i'ch tasg) neu gallwch eu cael o rywle arall.

Bydd marciau'n cael eu rhoi am y canlynol:

(a)	dehongli ffynonellau gwybodaeth technegol fel manylebau, rheoliadau adeiladu, lluniadau a briffiau dylunio, fel y bo'n briodol nodi gofynion o ran adnoddau fel offer, cyfarpar diogelu personol a defnyddiau cyfrifo'r defnyddiau y mae eu hangen o ran swm, arwynebedd, perimedr, amser a chymhareb	[20]
(b)	ysgrifennu a gosod meini prawf llwyddiant ar gyfer y dasg, i gynnwys lefelau goddefiant, graddfeydd amser ac ansawdd	[10]
(c)	cynllunio a threfnu gwaith gan gynnwys y ffordd mae'r gwaith wedi'i gynllunio a'i roi mewn trefn a sut mae'n bodloni terfynau amser ac arferion iechyd a diogelwch perthnasol arferion gwaith sy'n hybu iechyd a diogelwch gan gynnwys sicrhau bod ardaloedd gwaith yn lân ac yn ddiogel, a defnyddio cyfarpar diogelu personol yn gywir	[10]
(ch)	paratoi ar gyfer tasgau adeiladu gan gynnwys paratoi defnyddiau (gan ystyried eu priodweddau) symud defnyddiau a'u gwaredu mewn ffordd ddiogel sy'n gyfrifol o ran yr amgylchedd	[10]
(d)	cyflawni technegau mewn tasgau adeiladu (yn y ddau faes crefft a ddewiswyd)	[20]
(dd)	gwerthuso'r tasgau dylunio drwy baratoi adroddiad sy'n gwerthuso yn erbyn gofynion y briff, meini prawf llwyddiant a osodwyd yn bersonol ac anghenion defnyddwyr terfynol, gan gynnwys eu diogelwch, gan awgrymu gwelliannau lle y bo'n briodol.	[10]
Cyfanswm marciau		[80]



TGAU AMGYLCHEDD ADEILEDIG

UNED 3

ARCHWILIO'R AMGYLCHEDD ADEILEDIG

Tua 15 awr

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Darllenwch y wybodaeth dros y dudalen yn ofalus er mwyn sicrhau eich bod yn deall yr hyn y mae ei angen.

Mae'n bwysig eich bod yn gweithio'n annibynnol ar ymgeiswyr eraill ac yn sicrhau mai eich gwaith digymorth eich hun y byddwch yn ei gyflwyno.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwirio eich gwaith yn ofalus er mwyn sicrhau ei fod yn gywir.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Bydd angen i athrawon ac ymgeiswyr lofnodi datganiad mai gwaith yr ymgeisydd yn unig yw'r holl waith sy'n cael ei gyflwyno.

Mae mwy o wybodaeth am asesu'r uned hon i'w gweld yn Atodiad A y fanyleb.

Bydd defnydd o TGCh yn cael ei asesu yn rhan (ch) cynnal a chadw ac atgyweirio adeiladau, a newid defnydd.

Mae'r astudiaeth achos hon yn seiliedig ar adeiladau yn eich amgylchedd lleol.

Mae'n ofynnol i chi ddewis dau adeilad* yn eich amgylchedd lleol; un adeilad cyn 1919 ac un adeilad cyfoes, a llunio astudiaeth achos sy'n:

- nodi a disgrifio'r ffactorau sy'n effeithio ar bob cam o gylchred oes yr adeilad
- gwerthuso a dadansoddi'r camau o fewn pob cam o gylchred oes yr adeilad
- ymchwilio i'r camau a'r prosesau sy'n gysylltiedig â dylunio, adeiladu, prisio a defnyddio eich amgylchedd adeiledig
- cymharu a chyferbynnu'r prosesau sy'n gysylltiedig â dylunio, adeiladu, prisio a defnyddio adeiladau cyn 1919 ac adeiladau cyfoes
- cynnwys y defnydd o TGCh er mwyn cyflwyno'ch canfyddiadau mewn ffyrdd priodol.

** Nid oes angen ystyried y ddau adeilad ym mhob un o'r pum pwynt a nodir uchod, dim ond yn y pedwerydd pwynt, sy'n cymharu a chyferbynnu prosesau sy'n gysylltiedig ag adeiladau cyn 1919 ac adeiladau cyfoes.*

Bydd marciau'n cael eu rhoi am y canlynol:

(a)	Disgrifio: • camau cynllunio a dylunio adeiladau ac adeileddau gan gyfeirio at Gamau 0 i 4 RIBA a'r ffordd mae eich amgylchedd adeiledig wedi cael ei gynllunio a'i ddylunio i ddiwallu anghenion penodol • prosesau adeiladu gan gyfeirio at Gam 5 RIBA a'r ffordd mae eich amgylchedd adeiledig wedi cael ei adeiladu i ddiwallu anghenion penodol.	[10]
(b)	Dadansoddi a gwerthuso: • llesiant cymunedau – effaith eich amgylchedd adeiledig ar lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol cymunedau.	[10]
(c)	Dadansoddi a gwerthuso gwerth: • gwerthusiadau ôl-ddeiliadaeth ar effaith adeilad neu ased ar gostau rhedeg, boddhad staff a chleientiaid, perfformiad, iechyd a diogelwch, cysur a gwerth gwerthusiadau o'r fath.	[10]
(ch)	Esbonio: • gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio adeiladau – y prosesau sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw ac atgyweirio ac effaith cyflawni'r atgyweiriadau ar ddefnyddwyr • newid defnydd neu newid defnydd posibl – y prosesau sy'n gysylltiedig ag adnewyddu, ailgylchu ac aildefnyddio adeiladau ac asedau, effaith y gweithredoedd hyn a'r angen i sicrhau nad yw newidiadau neu newidiadau posibl yn effeithio'n negyddol ar ddiogelwch.	[10]
(d)	Disgrifio: • newid arferion o ran dylunio ac adeiladu'r amgylchedd adeiledig, gan gymharu adeiladau cyn 1919 ac adeiladau cyfoes, gan gynnwys y defnyddiau a ddefnyddir ynddynt a phriodweddau'r defnyddiau hynny.	[10]
Cyfanswm marciau		[50]